



CYFARFOD BWRDD CYHOEDDUS

16 Gorffennaf 2020

Cyfarfod rhithwir

09:30 – 13:00

Sesiwn gyhoeddus			Tudalen
09:30	1.	Croeso a sylwadau agoriadol gan y Cadeirydd	Llafar
09:35	2.	Ymddiheuriadau a Datgan Buddiannau	Llafar
09:40	3.	Cofnodion cyfarfod Bwrdd 30 Ebrill 2020 Cofnodion cyfarfod Bwrdd 28 Mai 2020 I'w cymeradwyo	SCW/20/04 3 19
09:45	4.	Log gweithredu a materion yn codi	SCW/20/05 27
09:50	5.	Diweddariad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau I'w nodi a derbyn	Llafar
Ar gyfer penderfyniad:			
Thema Blaenoriaeth 4: Galluogi Gofal Cymdeithasol Cymru i ddarparu			
10:05	6.	Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft 2019-20, Adroddiad ar yr archwiliad o'r cyfrifon Atodiad 1 Atodiad 2 I'w ystyried a chymeradwyo	SCW/20/06 32 35 99
10:36	7.	Adroddiad sicrwydd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg i'r Bwrdd Atodiad 2 I'w ystyried a chymeradwyo	SCW/20/07 117 127
10:45 – 10:55 Egwyl			
10:55	8.	Cynllun Busnes: Adroddiad cynnydd chwarter 1 I'w ystyried a chymeradwyo	SCW/20/08 140
11:25	9.	Ymgynghoriad Cynllun Strategol 2022-2026 drafft I'w ystyried a chymeradwyo	SCW/20/09 166
11:55 – 12:05 Egwyl			
12:05	10.	Diweddariad gwelliannau llywodraethu	SCW/20/10 186

I'w ystyried a chymeradwyo

12:35 11. [Covid-19 a Strategaeth y Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) SCW/20/11 203
I'w ystyried a thrafod

For discussion:

13:00 12. Effeithiolrwydd y cyfarfod Llafar
I'w drafod

Dyddiad y cyfarfod nesaf:

Dydd Iau 22 Hydref 2020

(Atebolrwydd Cyfarfod â'r Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol)



Gofal Cymdeithasol Cymru Social Care Wales

CYFARFOD BWRDD PREIFAT

30 Ebrill 2020

Cyfarfod Rhithwir Zoom

09:30 – 12:20

Yn bresennol:

Aelodau'r Bwrdd:

Mick Giannasi
Abigail Harris
Carl Cooper
Damian Bridgeman
Donna Hutton
Emma Britton
Grace Quantock
Jane Moore
Jo Kember
Kate Hawkins
Maria Battle
Peter Max
Rhian Watcyn Jones
Simon Burch
Trystan Pritchard

Gofal Cymdeithasol Cymru:

Sue Evans (Prif Swyddog Gweithredol)
David Pritchard (Cyfarwyddwr Rheoleiddio)
Jo Oak (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Strategaeth)
Sarah McCarty (Cyfarwyddwr Gwella a Datblygu)
Geraint Rowlands (Cyfarwyddwyr Cynorthwyol Cyllid a TGCh)
Hywel Dafydd (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Rheoleiddio)
Kate Salter (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol)
Llinos Bradbury (Uwch Swyddog Llywodraethu - cofnodion)

Sesiwn breifat:

1. **Croeso a Sylwadau Agoriadol gan y Cadeirydd**
 - i. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a nododd, oherwydd yr amgylchiadau presennol, y cynhelir y cyfarfod yn breifat fel y caniateir yn Rheolau Sefydlog y Bwrdd. Ni fydd cyfieithu ar y pryd yn y cyfarfod. Fodd bynnag, oherwydd y tebygolrwydd o orfod cynnal cyfarfod mis Gorffennaf ar ffurf rithwir, mae'r tîm Llywodraethu Corfforaethol yn gweithio gydag Aled Jones, o Cymen, er mwyn sicrhau y gellir gwneud hyn ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.
 - ii. Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am y cwestiynau a dderbyniwyd ymlaen llaw a gofynnwyd am ganiatâd yr Aelodau i beidio â thrafod materion tymor hirach yn y cyfarfod heddiw ac y byddai SE yn mynd i'r afael â'r rhain yn un o'i briffiau wythnosol i'r Bwrdd. Roedd aelodau'r Bwrdd yn cytuno â'r dull hwn.
 - iii. Nododd y Cadeirydd nad oedd unrhyw ymddiheuriadau wedi dod i law ar gyfer y cyfarfod.

- iv. Datganodd Grace Quantock fuddiant newydd fel aelod o Bwyllgor Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru, a oedd wedi'i ychwanegu at gofrestr buddiannau'r Aelodau.

2. Cofnodion y Cyfarfod Bwrdd Preifat 12 Rhagfyr 2019

- i. Cafodd y cofnodion eu harchwilio am gywirdeb a'u **cymeradwyo** gan y Bwrdd.
- ii. Rhoddodd SE y wybodaeth ddiweddaraf am gais yr ESRC a hysbysodd y Bwrdd fod y penderfyniad wedi'i ohirio o fis Gorffennaf tan fis Medi, fodd bynnag, rydym, ar sail anffurfiol, yn derbyn cwestiynau da ynghylch y cais sy'n awgrymu diddordeb.

3. Cofnodion Cyfarfod Cyhoeddus y Bwrdd 31 Ionawr 2020

- i. Cafodd y cofnodion eu harchwilio am gywirdeb a'u **cymeradwyo** gan y Bwrdd.

4. Log gweithredu a materion yn codi

- i. Tynnwyd sylw'r aelodau at y log gweithredu treigl a gyflwynwyd. Mae hyn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am gynnydd yn erbyn camau gweithredu ers y cyfarfod diwethaf. Ni chodwyd unrhyw faterion eraill a oedd yn codi.

5. Covid-19: Ein hymateb

- i. Rhoddodd KS y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am ddatblygiadau ers ysgrifennu'r papur:
 - Mae angen cynnwys ceisiadau ychwanegol yn y Gofrestr Penderfyniadau gan fod y cerdyn gweithiwr gofal cymdeithasol wedi'i ehangu i'r gweithwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant hynny sy'n dal i weithio;
 - Cafodd y broses o sefydlu staff ei hadolygu ar 27 Ebrill gan y tîm arweinyddiaeth a oedd yn edrych yn benodol ar gontractau cyfnod penodol, a gwneir penderfyniad yr wythnos yn dechrau 4 Mai ar y contractau hynny sydd i'w hystemyn am gyfnod penodol o amser;
 - Mae trafodaethau wedi'u cynnal ar draws y sefydliad o ran adolygu ac addasu'r Cynllun Busnes ar gyfer 2020-21 sy'n eitem i'w thrafod yn ddiweddarach yn yr agenda;
 - Mae Atodiad 2, cofrestr ar gyfer Risgiau Strategol Covid-19, yn cael ei adolygu bob pythefnos gan EMT. Ni fu unrhyw newidiadau ers ysgrifennu'r papur;
 - Mae Tudalen 42, Atodiad 3, yn nodi sut mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cefnogi'r sectorau gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar. Mae'r camau hynny sydd wedi'u nodi fel 'I'w cadarnhau' yn y papur bellach wedi'u cyhoeddi a bydd gwybodaeth a chanllawiau ynghylch gofal diwedd oes yn cael eu cyhoeddi yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 4 Mai. Gwahoddwyd yr Aelodau i gyfeirio'n ôl at y dudalen we gan ei bod yn cael ei diweddarau'n barhaus wrth i adnoddau ychwanegol gael eu cynhyrchu;

- Erbyn dydd Gwener 24 Ebrill, roedd y Cerdyn Gweithiwr Gofal Cymdeithasol wedi cael ei lawrlwytho dros 21,000 o weithiau. Bydd y profiad o gyflwyno'r cerdyn yn helpu i lywio ein gwaith digidol gyda'r sector yn y dyfodol;
- Mae nifer yr ymweliadau i dudalennau gwe ac yn arbennig y tudalennau ar Covid-19 wedi cynyddu. Yn yr wythnos yn dechrau 20 Ebrill, cafwyd 15,500 o ymweliadau i'r dudalen ar Covid-19 yn unig;
- Mae negeseuon cyfryngau cymdeithasol y Prif Swyddog Gweithredol hefyd yn denu nifer fawr o ymweliadau gyda thros 3,800 o ymweliadau hyd yn hyn;
- O ran cyfathrebu'n uniongyrchol â'r rhai sydd ar y gofrestr, roedd hanner y rheini a gafodd y wybodaeth ddiweddaraf am waith y sefydliad yn ystod yr wythnos yn dechrau 27 Ebrill, wedi edrych ar y wybodaeth o fewn 24 awr;
- Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn rhan o'r gwaith o lunio bwletin wythnosol ADSS Cymru sydd wedi'i dargedu'n benodol at ddarparwyr a chyflogwyr;
- Anfonwyd holiadur ar weithio gartref at aelodau staff Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae 92% wedi cwblhau'r holiadur ac mae'r 9 sydd eto i'w gwblhau yn cael eu hannog i wneud hynny. Mae pob asesiad risg uchel wedi'i gwblhau;
- Mewn perthynas ag effaith COVID-19 ar ein haelodau staff, mae un unigolyn wedi cael prawf cadarnhaol yn swyddogol ac mae bellach yn ôl yn ei waith yn dilyn triniaeth ysbyty fel claf mewnol. Mae nifer o bobl eraill wedi nodi symptomau ond heb gael eu profi'n swyddogol;
- Cwblhawyd yr asesiad Buddsoddwyr mewn Pobl (BmP) yn gynt na'r disgwyl ac mae'r sefydliad wedi cyrraedd Safon Arian. Bydd yr adborth a gafwyd gan yr aseswyr yn llywio ein cynlluniau ar gyfer gwella'r sefydliad yn y dyfodol;
- Cyfarfu KS, SE a Cathryn Thomas (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwella) â thîm Cyfnewidfa Arfer Da (GPX) Archwilio Cymru ar 22 Ebrill er mwyn archwilio sut gall Gofal Cymdeithasol Cymru addasu ei fethodoleg, sydd wedi hen ennill ei phlwyf, er mwyn canfod y dysgu sy'n dod i'r amlwg o weithio yn yr amgylchedd COVID-19 presennol;
- Mae'r grŵp lechyd a Lles yn cyfarfod yn wythnosol ac yn gweithio ar fentrau i gefnogi staff a helpu pawb i aros mewn cysylltiad wrth weithio gartref;
- I gefnogi rheolwyr, bwriedir cynnal arolygon ychwanegol er mwyn rhoi arweiniad ar reoli eu timau, datblygu eu gwaith a gofalu amdanynt eu hunain;
- Mewn ymateb i gwestiynau yn ymwneud â gwyliau blynyddol, dywedodd KS wrth y Bwrdd fod staff yn dal i gael eu hannog i gymryd gwyliau blynyddol yn ystod y trefniadau presennol, ar hyn o bryd dyma ddechrau'r flwyddyn wyliau flynyddol a bydd y sefydliad yn cadw llygad ar hyn;
- Derbyniwyd nifer o llythyrau Annwyl Swyddog Cyfrifyddu yn gofyn am wybodaeth am ymateb COVID-19 y sefydliad a bydd y papur sy'n cael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn cael ei ddefnyddio i ymateb i'r llythyrau hynny.

- ii. Ar ran y Bwrdd, llongyfarchodd y Cadeirydd y rhai a fu'n gysylltiedig â chyflawni gwobr Arian BmP. Roedd y Cadeirydd hefyd yn canmol y Prif Swyddog Gweithredol a'r uwch dîm am y ffordd yr oedd y sefydliad wedi ymateb i COVID-19 ar y dechrau. Roedd cyflymder ymateb y sefydliad wedi cael cryn argraff ar yr Aelodau yn ogystal â'r agwedd flaengar a oedd wedi'i mabwysiadu mewn adfyd.
- iii. Rhoddodd JO y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am yr amserlen ar gyfer llunio'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn dilyn cwestiynau gan aelodau. Mae JO, SE a GR wedi trafod y sefyllfa bresennol gydag archwilwyr mewnol ac allanol ac maent yn

bwrw ymlaen ar sail yr amserlen a bennwyd yn wreiddiol. Y bwriad yw i'r Bwrdd gytuno a llofnodi'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf. Fodd bynnag, roedd rhai amodau a all effeithio ar hynny.

- iv. Cynhaliwyd yr archwiliad interim cyntaf gan Archwilio Cymru yn ystod yr wythnos yn dechrau 20 Ebrill. Derbyniwyd llythyr gan yr Archwilydd Cyffredinol yn cydnabod y bydd angen agwedd pragmatig o dan yr amgylchiadau presennol. Mae angen cydnabod hefyd nad yw'r broses mor syml ag arfer o bosibl gan ein bod yn dibynnu ar wybodaeth trydydd parti (e.e. pensiynau) a allai gael ei hoedi. Mae'n bosibl y bydd gallu Archwilio Cymru i gynnal yr archwiliad terfynol yn her hefyd o ran adnoddau dynol. Os bydd yr archwiliad terfynol yn llithro ddiwedd mis Mai, mae'n bosibl na fydd modd cyflwyno'r cyfrifon terfynol yng nghyfarfod mis Mehefin o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg. Fodd bynnag, y nod o hyd fydd eu cyflwyno i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf a bydd angen nodi dull amgen o weithredu. Os oes unrhyw newidiadau sylweddol yn y broses, bydd SE yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Bwrdd drwy'r sesiynau briffio COVID-19 y mae hi'n eu darparu bob pythefnos ar hyn o bryd.
- v. Nododd EB ei bod yn gwerthfawrogi'r heriau yr oedd yr amgylchiadau presennol yn eu cyflwyno ac roedd clywed bod y gwaith o lunio'r cyfrifon yn parhau ar y trywydd cywir wedi ei chalonogi.
- vi. Darparodd DP ymateb i gwestiynau a gyflwynwyd gan EB cyn y cyfarfod mewn perthynas â safonau addasrwydd i ymarfer a graddau gwaith cymdeithasol:
 - Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi bod yn cydweithio'n agos â rheoleiddwyr eraill y DU ac, yn rhinwedd Deddf Argyfwng y Coronafeirws, mae wedi sefydlu cofrestr dros dro ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n dychwelyd. Mae fframwaith wedi'i roi ar waith er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n ymuno â'r gofrestr yn addas i ymarfer. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr wneud datganiadau ac mae proses ar gael er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon a nodir. Mae'n ofynnol hefyd i awdurdodau lleol arfer diwydrwydd dyladwy mewn perthynas â chyflogi gweithwyr cymdeithasol o'r gofrestr dros dro.
 - Mewn perthynas â graddau gwaith cymdeithasol, aethpwyd ati'n pragmatig gan alluogi carfannau eleni i gwblhau eu graddau, a chymhwyso fel Gweithwyr Cymdeithasol a symud i wasanaeth. Fodd bynnag, mae'r trafodaethau ynghylch effaith gostyngiad sylweddol nifer y myfyrwyr yn y dyfodol yn y camau cynnar. Bydd DP yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol mewn perthynas â hyn wrth i'r trafodaethau ddatblygu. **GWEITHREDU**
- vii. Cadarnhaodd EB ei bod yn fodlon â'r ymatebion i'w chwestiynau. Rhannodd ei phrofiad personol o wneud gradd Meistr ac mae'n pwysleisio'r effaith bosibl ar y cwrs yn y dyfodol o ganlyniad i ofynion cadw pellter cymdeithasol.
- viii. Rhoddodd SMCc y wybodaeth ddiweddaraf am y Gwobrau mewn ymateb i gwestiynau a gyflwynwyd ymlaen llaw gan aelodau:
 - Mae seremoni'r Gwobrau wedi'i gohirio ac mae dyddiad dros dro wedi'i neilltuo ar gyfer mis Tachwedd 2020. Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar ofynion cadw pellter cymdeithasol yn y dyfodol. Dros y mis nesaf, bydd gwaith yn cael

ei wneud i archwilio sut y gellid cynnal y seremoni ac os na wneir hynny, byddwn yn ystyried a ellid cynnal y seremoni ar ffurf rithwir.

- O ran casglu arferion da o'r ymateb i COVID-19, mae'r ffocws hyd yma wedi bod ar gydnabod gweithwyr. Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio dull o rannu arferion arloesol a anfonwyd at y rhanbarthau tua phythefnos yn ôl. Nid yw'n glir eto pa mor llwyddiannus y bu hyn, felly efallai y gellir gwneud rhagor o waith o ran casglu straeon newyddion da. Mae unrhyw beth y mae'r sefydliad yn ei nodi yn cael ei rannu drwy'r ymgyrch Gofalwn Cymru.
- Mae angen rhannu a hyrwyddo arferion arloesol, ond mae'n rhaid cydbwysu hyn yn ofalus o ystyried nifer y ceisiadau am wybodaeth gan y wasg a graddau'r wybodaeth sy'n cael ei chylchredeg yn y cyfryngau.

- ix. Diolchodd PM i SMcC am y wybodaeth ddiweddaraf ond gofynnodd a oedd unrhyw beth y gellid ei wneud i hyrwyddo'r gwaith da sy'n cael ei amlygu ar y cyfryngau cymdeithasol ledled Cymru. Dywedodd SMcC fod arfer da yn cael ei rannu drwy'r ymgyrch Gofalwn; Mae 200 a mwy o negeseuon cyfryngau cymdeithasol wedi'u cyhoeddi ers mis Ionawr. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid oes mecanwaith i gysylltu hyn â'r Gwobrau. Mae cyngor gan y tîm Cyfathrebu yn awgrymu bod mwy na 5 'neges drydar' y dydd yn golygu bod negeseuon yn cael eu colli ac felly mae angen ystyried yn ofalus pa neges sy'n cael ei hyrwyddo.
- x. Holodd JM a oedd yr enillwyr wedi cael eu hysbysu ac roedd yn credu y gallai hyn roi hwb i forâd dan yr amgylchiadau presennol. Dywedodd SMcC nad yw'r enillwyr wedi cael eu hysbysu er bod y categori'r rownd derfynol yn ymwybodol o gofio bod gwahoddiadau wedi cael eu hanfon ar gyfer y seremoni cyn y gohiriad. Bydd angen ystyried sut i rannu a hyrwyddo'r enillwyr a bydd hynny'n ddibynnol ar yr hyn a benderfynir o ran fformat ac amseru seremoni'r Gwobrau.
- xi. Mewn ymateb i gwestiwn gan JM am y posibilrwydd o gronni gwyliau blynyddol wrth i staff weithio gartref, dywedodd JO fod y flwyddyn newydd ar gyfer gwyliau blynyddol wedi cychwyn ym mis Ebrill. Mae'r staff yn cael eu hannog i gymryd eu gwyliau blynyddol fel arfer yn ystod y sefyllfa bresennol gan fod hyn yn bwysig ar gyfer eu lles. Dylid ystyried yr effaith y bydd dwyn ymlaen sylweddol ar wyliau blynyddol yn ei gael ar y gallu i gyflawni'r cynllun busnes. Dywedodd JO fod hyn yn cael ei fonitro'n ofalus ac y bydd yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu hystyried wrth ailfodelu'r cynllun busnes.
- xii. Gofynnodd CC beth fyddai tebygolrwydd ac effaith adleoli aelodau staff i Lywodraeth Cymru i gynorthwyo gyda'r ymateb i COVID-19. Dywedodd SE wrth y Bwrdd nad oedd neb wedi cael ei adleoli ar hyn o bryd a'i bod wedi mynd yn ôl at Lywodraeth Cymru i ofyn am ragor o fanylion am y sgiliau y maent yn chwilio amdanynt. Mae hi hefyd wedi gofyn i'r Cyfarwyddwyr Cynorthwyol ystyried y gallu sydd gan eu timau ac a oes modd rhyddhau unrhyw un ond pwysleisiodd yr angen i sicrhau bod anghenion busnes y sefydliad yn gallu cael eu diwallu o hyd.
- xiii. Holodd CC am yr effaith ar y gyllideb mewn perthynas â chost cynhyrchu a gweinyddu'r cerdyn Gweithiwr Gofal Cymdeithasol. Dywedodd SE fod y gost wedi'i nodi yn y papur a bod modd ei chyrraedd o fewn y cyllidebau presennol, yn enwedig yn wyneb y ffaith bod y trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau cyllid

ychwanegol ar gyfer 2020/21 yn mynd rhagddynt yn dda. Fodd bynnag, bydd sefyllfa'r gyllideb yn dod yn gliriach wrth ail-lunio'r Cynllun Busnes ar gyfer 2020-21.

- xiv. Holodd CC ynghylch yr hyn a oedd wedi'i ddysgu hefyd yn ystod y cyfnod hwn a'r cyfle i'r Bwrdd fyfyrion ar hynny. Dywedodd SE fod GPX Archwilio Cymru yn defnyddio technoleg sense maker, a bod KS yn ystyried y ffordd orau o gael y sefydliad i'w ddefnyddio er mwyn dysgu gan ei fod yn digwydd yn ystod yr ymateb i'r COVID-19. Bydd y dysgu'n cael ei rannu gyda'r Bwrdd a fydd yn rhan annatod o'r broses. Rhagwelir y bydd cynllun gwella'r sefydliad yn dod i'r amlwg ac y bydd y Bwrdd yn ymwneud yn agos â'r gwaith o'i ddatblygu.
- xv. Diolchodd AH i SE a'i huwch dîm am lwyddo i newid model gweithredu'r sefydliad i fodol o weithio gartref mor gyflym a gofynnodd a fyddai ymgyrch recriwtio genedlaethol gan y GIG yn peri risg posibl i'r gweithlu gofal cymdeithasol, ac a oedd y mater hwnnw'n cael ei ystyried. Dywedodd AH fod yna, yn ôl ei phrofiad hi, berthynas waith agos gyda llywodraeth leol ar lefel leol, ac nid oedd hyn i'w weld yn digwydd. Fodd bynnag, gofynnodd a oedd hyn yn broblem ar lefel Cymru gyfan. Hysbysodd y Cadeirydd y Bwrdd ei fod wedi trafod y mater hwn yn ddiweddar gyda Chadeirydd AaGIC a oedd wedi pwysleisio'r angen i sicrhau nad yw ymgyrch y GIG yn effeithio ar y gweithlu gofal cymdeithasol sy'n adlewyrchiad o aeddfedrwydd y berthynas sy'n bodoli rhwng y ddau sefydliad. Dywedodd SE wrth yr Aelodau hefyd y cynhaliwyd cyfarfod ar y cyd â Chyfarwyddwr a Chadeirydd Cydffederasiwn y GIG yn ddiweddar lle trafodwyd y gwaith o reoli'r gweithlu iechyd a gofal yn ystod yr argyfwng presennol. Dywedodd SE fod lefel y risg bellach yn cael ei hystyried bellach i fod yn is nag yr oedd pan grëwyd y cofnod ar y gofrestr risgiau ac y byddai'r mater yn cael ei adolygu y tro nesaf y bydd EMT yn ystyried y gofrestr risgiau.
- xvi. Gofynnodd AH a fydd angen ychwanegu'r ymateb Covid-19 at y gofrestr ar gyfer risgiau strategol. Cadarnhaodd SE y byddai hyn yn digwydd.
- xvii. Cyfeiriodd AH at agoriad ysbyty Calon y Ddraig yng Nghaerdydd fel enghraifft o waith partneriaeth da gyda'r Awdurdod Lleol. Mae aelodau staff y tîm "get me home" wedi dod yn bennaf o'r timau tai a byw'n annibynnol, ac felly mae'n darparu cyfuniad o brofiad yn y maes gofal cymdeithasol a thai. O ran ymgyrchoedd cenedlaethol i ddenu gweithwyr, dywedodd AH fod byrddau iechyd, yn mynd ati'n lleol i ddilyn eu prosesau recriwtio eu hunain, yn annibynnol ar ymgyrchoedd cenedlaethol a gwasanaethau a rennir, oherwydd yr angen i recriwtio'n gyflym.
- xviii. Roedd MB yn cytuno â sylwadau AH ar y prosesau recriwtio lleol a wnaed mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol. Yn lleol, yn y gorllewin, roedd grŵp dysgu ac arloesi wedi'i sefydlu i gasglu'r dysgu ac mae hynny'n cynnwys gofal cymdeithasol a'r trydydd sector.
- xix. Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cwestiynau a'u sylwadau ar y papur hwn. Cytunodd yr Aelodau eu bod wedi **trafod** ymateb y sefydliad i COVID-19, ac wedi **craffu arno**, gan dalu sylw arbennig i'r gofrestr penderfyniadau, y gofrestr ar gyfer risgiau strategol, gan gefnogi'r sector (y cynnydd hyd yn hyn) a chefnogi iechyd a lles gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru.

6. Cynllun Busnes: diweddariad chwarter 4

- i. Cyflwynodd KS y wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Busnes a nododd fod ffigurau diweddaraaf ar gyfer ymgyrch Gofalwn Cymru bellach wedi dod i law ac y byddant yn cael eu rhannu ag Aelodau y tu allan i'r cyfarfod.
- ii. Gofynnodd EB a fu unrhyw faterion o ran diogelu data yn ystod y cyfnod gweithio o bell. Hysbysodd KS yr Aelodau fod achos o dorri data wedi'i gyfeirio at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'u bod yn disgwyl ymateb ganddynt. Bydd yr aelodau staff yn cael eu holi ymhellach yn ystod yr wythnosau nesaf am y cymorth ychwanegol a fydd angen ar gyfer rheoli data wrth weithio o bell.
- iii. Mewn ymateb i gwestiynau a godwyd ymlaen llaw gan KH am gwblhau dyfarniadau cymhwyster, cynghorodd SMcC y cafwyd cyfres o sgysiau partneriaeth rhwng Gofal Cymdeithasol Cymru, Cymwysterau Cymru, y Consortiwm ac AaGIC er mwyn ceisio dod o hyd i'r atebion gorau posibl. Teimlwyd bod y marciwr o 70% ar gyfer cwblhau yn deg ac yn bragmataidd. Dywedodd KH y bydd y trefniadau hyn yn golygu na fydd colegau'n derbyn myfyrwyr ym mis Medi gan y bydd myfyrwyr sy'n parhau a chyfraddau cymwysterau a chwblhau yn aros yn debyg ar y cyfan. Gofynnodd hefyd am y goblygiadau os bydd myfyrwyr yn mynd yn syth i'r gweithlu heb gwblhau eu cymhwyster, er y bydd y meincnod o 70% yn caniatáu i bobl gwblhau eu cymwysterau cyn ymuno â'r gweithlu. Cydnabu SMcC hyn gan ddweud y bydd angen parhau i ddysgu, yn enwedig mewn unrhyw gyfnod estynedig o gadw pellter cymdeithasol er mwyn deall beth mae hynny'n ei olygu i ddysgwyr.
- iv. Gofynnodd PM a oedd mwy y gellid ei wneud gan ddefnyddio offer cyfathrebu rhith i ymgysylltu â rhanddeiliaid, o gofio bod llawer mwy o bobl gartref ac y gallai fod yn haws eu cyrraedd. Dywedodd SMcC fod swyddogion yn cydweithio â Grant Thornton i ddiwygio ein dull gweithredu yng ngoleuni sefyllfa Covid-19. Bydd y cynllun busnes yn pennu pa adnoddau sydd eu hangen i gefnogi'r gweithgareddau hynny wrth symud ymlaen. Bydd angen i'r broses o ymgysylltu â'r sector gael ei strwythuro'n unol â mathau eraill o waith sy'n gysylltiedig â'r strategaeth ddata a'r gwaith y mae Cordis Bright yn ei wneud i'n helpu i asesu a dangos ein heffaith. Dywedodd JO fod y sefyllfa bresennol wedi rhoi'r cyfle i feddwl o'r newydd a chyflymu rhywfaint ar y gwaith digidol gyda'r sector. Cadarnhaodd JO hefyd y gofynnwyd i Grant Thornton ailosod rhywfaint o'r gwaith, gan ddysgu o Covid-19, er mwyn llywio'r ffordd y gallai gweithgareddau gael eu cydlynu'n well ar draws y sefydliad, yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar yr hyn y gallwn gynnig ei wella. Bydd hyn hefyd yn cefnogi ein camau nesaf ar gyfer y cynllun strategol.
- v. Rhoddodd GR drosolwg i'r aelodau o'r gyllideb. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd yr incwm yn £338,000 yn uwch na'r gwariant. Roedd hyn yn rhannol oherwydd bod incwm yn £150,000 yn fwy nag a gyllidebwyd gan fod nifer y gweithwyr gofal cartref a gofrestrodd yn uwch na'r disgwyl. O ran tanwario, cafwyd tanwariant o £ 187,000 ar fwrsariau lle cafodd dim ond 194 o'r 227 o grantiau a oedd ar gael eu dyrannu a chafodd hyn hefyd effaith ar Gyllid Cyfleoedd Dysgu Ymarfer (PLOF). Tynnodd GR sylw hefyd at y gorwariant yng nghyllideb y gwrandawiadau fel yr adroddwyd yn ystod diweddariad y trydydd chwarter. Oherwydd y sefyllfa Covid-19, nid oedd modd gwario rhai elfennau o'r gyllideb ar gyfer 2019-20 ac felly bydd rhai costau a oedd i'w talu ym mis Mawrth yn cael eu talu yn y flwyddyn ariannol newydd ac mae 1% wedi'i ddwyn

ymlaen i dalu'r costau hynny. Mae'r targed arian parod o 2% ar ddiwedd y flwyddyn wedi'i gyrraedd er gwaethaf anawsterau wythnosau olaf y flwyddyn ariannol.

- vi. Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan yr Aelodau am y sefyllfa ariannol ar ddiwedd chwarter pedwar
- vii. Cytunodd yr Aelodau eu bod wedi **craffu** ar y cynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes 2019 – 2020 ar y cyfnod diwedd blwyddyn ac wedi'i **gymeradwyo**.

7. Cynllun Busnes 2020-21

- i. Nododd y Cadeirydd y byddai'r Bwrdd wedi cytuno ar y Cynllun Busnes ar gyfer 2020-21 yn y cyfarfod hwn o dan amgylchiadau arferol. Fodd bynnag, oherwydd effaith y sefyllfa Covid-19, mae'n rhaid ail-weithio'r cynllun a bydd angen i'r Bwrdd gymeradwyo'r Cynllun Busnes y tu allan i'r cyfarfodydd a drefnwyd ar gyfer y Bwrdd.
GWEITHREDU
- ii. Atgoffodd JO y Bwrdd eu bod wedi cael cyflwyniad ar y fframwaith ar gyfer Cynllun Busnes 2020-21 yng nghyfarfod mis Ionawr yn unol â deg amcan strategol y sefydliad. O ran cyllid, roedd yr aelodau wedi cael gwybod am y diffyg posibl a'r trafodaethau parhaus gyda Llywodraeth Cymru ynghylch y gyllideb. Cyn y pandemig Covid-19, cafwyd ymateb ffafriol gan y Llywodraeth mewn perthynas â'r diffyg, gan awgrymu, yn ychwanegol at y dyraniad Cymorth Grant o £19 miliwn, byddai £1.3 miliwn yn ychwanegol yn cael ei ddarparu i'w neilltuo ar gyfer y diffyg o £700,000 yn y pensiwn a chostau gweithredol eraill, gan gynnwys blaenoriaethau Gofal Cymdeithasol Cymru a gytunwyd a chymorth i flaenoriaethau newydd y Llywodraeth, gan gynnwys datblygu ffynonellau data i gefnogi fframwaith perfformiad Llywodraeth Cymru. Ers Covid-19, bu nifer o drafodaethau gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ac ar draws y maes gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar ynghylch y cynllun arfaethedig. Ar hyn o bryd, ni nodwyd unrhyw flaenoriaethau newydd. Y flaenoriaeth i'r sefydliad yw symud gweithgarwch er mwyn ymateb i Covid-19 a chefnogi adferiad a chynnaladwyedd y sector. Mae eisoes yn dod yn amlwg y bydd proses graffu ddwys o ran y llyfudd y mae'r sefydliad yn ychwanegu gwerth a'r ffordd y mae'n cefnogi'r ymateb i'r argyfwng a'r broses adfer.
- iii. Atgoffodd JO yr Aelodau fod gan y sefydliad gyfrifoldebau statudol craidd o hyd i'w cyflawni yn ystod y cyfnod hwn, gan gydnabod yr un pryd y gall fod angen eu haddasu hefyd mewn ymateb i Covid-19.
- iv. O ran yr amserlen ar gyfer cwblhau a chymeradwyo, tynnodd JO sylw at y ffaith mai cyfnod byr sydd ar gael i lunio'r Cynllun Busnes a'r Llythyr Cylch Gwaith ar y cyd gan fod Llywodraeth Cymru yn aros am wybodaeth gan y sefydliad er mwyn egluro sut mae'r Cynllun Busnes yn cael ei addasu i gefnogi'r sefyllfa bresennol. Mae fframwaith lefel uchel yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd a bydd y tîm Arweinyddiaeth a'r rheolwyr yn mynd ati wedyn i weithio ar y cynigion sydd wedi'u costio cyn mynd yn ôl at EMT i gael cytundeb, a'r gobaith yw y bydd hynny'n digwydd ar 26 Mai. Bydd angen cyflwyno'r Cynllun Busnes i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Mai. Mae hynny'n golygu y bydd angen cyfarfod Bwrdd ychwanegol rhwng y cyfarfod EMT a'i roi gerbron Llywodraeth Cymru fel y gall y Bwrdd gytuno ar y Cynllun Busnes. Yn y cyfamser,

mae angen ailfeddwl ynglŷn â'r ffordd y mae adnoddau'n cael eu dyrannu a nodi'n feirniadol beth yw busnes craidd a'r ffordd y mae adnoddau'n cael eu symud i gefnogi blaenoriaethau mwy newydd. Nododd JO fod angen i ni gofio y creffir ar bob gweithgaredd a chost y gweithgaredd hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi gofyn a oes angen y £1.3 miliwn ychwanegol o hyd ac mae'n bosibl y gellid cael adolygiad canol blwyddyn a gellir gofyn am rywfaint o'r gyllideb yn ôl. Mae'r isadran blynnyddoedd cynnar eisoes wedi awgrymu y byddant yn ymrwymo i 6 mis cyntaf y gyllideb yn unig ac yna'n ei hadolygu.

- v. Rhoddodd SMCc drosolwg lefel uchel o'r Cynllun Busnes i'r Aelodau, a fydd yn cael ei gylchredeg i'r aelodau yn ystod yr wythnos nesaf. **GWEITHREDU**
- vi. Nododd SMCc yr angen i gamu i ffwrdd o'r fframwaith arferol ar gyfer Cynllun Busnes fel y gellir disgrifio ein rôl bresennol yn y ffordd orau a ffyrdd o gefnogi'r sector wrth symud ymlaen. Roedd yn cynnig y dylid canolbwyntio ar dri maes allweddol, sef:-
 - Cyflawni swyddogaethau craidd a statudol
 - Mentrau ymateb cyflym Covid-19
 - Cefnogi adferiad a chynaliadwyedd ar gyfer y sector a'r sefydliad.
- vii. Bydd gweithgareddau yn y meysydd hyn yn cael eu llunio yn erbyn y tair cynulleidfa allweddol yr ydym yn gweithio gyda hwy, sef:-
 - Y gweithlu gofal cymdeithasol a'r gweithlu blynnyddoedd cynnar;
 - Rheolwyr, arweinwyr a pherchnogion safleoedd gofal cymdeithasol a'r blynnyddoedd cynnar;
 - Arweinwyr gofal cymdeithasol a systemau ehangach.
- viii. Bydd hyn oll seiliedig ar faterion trawsbynciol fel ystyried y cynnig digidol a'r dull gweithredu wrth symud ymlaen. Bydd angen adolygu'r cynllun strategol er mwyn ystyried uchelgais tymor hir y sefydliad, gan adeiladu ar ganfyddiadau'r gwaith a ddechreuwyd eisoes gyda Grant Thornton a Cordis Bright.
- ix. Tynnodd SE sylw at yr angen i ystyried eleni fel blwyddyn ailasesu gan ddefnyddio'r wybodaeth gan gyfeillion beirniadol annibynnol. Dylai hyn sicrhau bod y sefydliad mewn sefyllfa llawer cryfach i ddangos effaith a gwerth ychwanegol ei weithgareddau.
- x. O ran codi proffil y sector, pwysleisiodd SE fod y Llywodraeth hefyd yn canolbwyntio ar gefnogi adferiad yr economi a bod cyfle i aildefnyddio'r adroddiad a gomisiynwyd ar werth economaidd gofal cymdeithasol i oedolion. Bydd angen atgoffa'r llywodraeth hefyd o strategaeth y gweithlu na chafwyd ymateb iddi eto a bydd llythyr yn cael ei anfon ar y cyd rhwng Gofal Gymdeithasol Cymru ac AaGIC er mwyn annog ymateb i'r strategaeth, pan fydd yr amseru'n briodol. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ymgymryd â gwaith craffu ynghylch effaith Covid-19; mae un elfen o'r gwaith yn cynnwys ystyried yr effaith ar blant a phobl ifanc a bydd elfen arall yn ystyried effaith darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i Gofal Cymdeithasol Cymru rannu'r dystiolaeth a'r dysgu sy'n deillio o'n hymateb i'r argyfwng.

- xi. Mae'r ymgyrch Gofalwn Cymru a'r broses o gyflwyno cerdyn adnabod ar gyfer gweithiwr gofal cymdeithasol yn creu "brand" ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru ac mae'n pwysleisio pwysigrwydd codi proffil y sector. Cyfeiriodd SE hefyd at y data amser real sydd ar gael i'r GIG, oherwydd y gallu sefydliadol sydd ar gael yn y seilwaith cenedlaethol, nad yw ar gael i'r sector gofal cymdeithasol. Gofynnwyd i Gofal Cymdeithasol Cymru ddatblygu strategaeth ddata newydd, a fydd yn cefnogi ac yn galluogi'r sector i wella ei allu i ddadansoddi data. Bydd hyn yn arbennig o bwysig o ran dangos effaith a manteision gofal cymdeithasol i gymdeithas, wrth i arian cyhoeddus leihau o bosibl.
- xii. Nododd SB fod natur wasgaredig y sector gofal cymdeithasol yn golygu bod negeseuon mewn perthynas â Covid-19 ar ddechrau'r argyfwng wedi'u colli o'u cymharu â negeseuon y GIG. Mae angen dod o hyd i ffordd o gael y llais unigol hwnnw sy'n gallu gweithredu ar yr un lefel â'r GIG.
- xiii. Diolchodd y Cadeirydd i JO a SMcC am eu cyfraniadau a nododd y bydd y Bwrdd yn gweld cynllun busnes lefel uchel gyda'r cyfle i gyfrannu sylwadau cyn cyfarfod Bwrdd yn ddiweddarach ym mis Mai er mwyn cytuno ar y Cynllun Busnes a'i gymeradwyo.

8. Materion Rheoleiddio

- i. Cyflwynodd HD yr adroddiad i'r Aelodau. Tynnodd HD sylw at y ffaith fod yr adroddiad mewn dwy ran, y naill yn egwyddorion Cymhwyster i Ymarfer (AiY) a'r llall yn darged y cynllun busnes ar gyfer achosion AiY sydd ar agor ers dros 18 mis. Tynnodd HD sylw at yr egwyddorion AiY a oedd wedi'u cynnwys yn y papur ac aeth ati i atgoffa'r aelodau o drafodaeth ar ddiwrnod datblygu'r Bwrdd yn trafod egwyddorion strategol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth fel man cychwyn ar gyfer datblygu cyfres o egwyddorion a fyddai'n llywio'r rhaglen reoleiddio ar gyfer gwella.
- ii. Mewn perthynas â'r egwyddorion, tynnodd HD sylw at rai pwyntiau allweddol:
 - Mae'r egwyddor gyntaf yn disgrifio egwyddor gyffredinol AiY sef ei fod yn ymwneud â rheoli'r risg y mae person cofrestredig yn ei beri i bobl sy'n defnyddio gofal a chymorth nawr ac yn y dyfodol. Gallai hyn fod yn her i bobl sy'n ceisio sicrhau bod pobl eraill yn atebol naill ai ar lefel bersonol neu ar lefel sefydliadol;
 - Mae'r egwyddorion yn adlewyrchu llawer o arferion gwaith cyfredol er bod yr egwyddor mewn perthynas â gweithredu dim ond pan fo risg uchel, neu bryder difrifol yn golygu newid sylweddol mewn ymarfer gan fod achosion o risg is wedi'u hymchwilio'n flaenorol hefyd;
 - Caiff dyfarniadau mewn perthynas â lefel y risg dan sylw eu gwneud gan y tîm AiY, drwy'r broses atgyfeirio a thrwy ystyriaeth mewn cynhadledd achos;
 - O ran trothwyon, mae risg uchel yn cyfeirio at y risg a berir gan yr unigolyn cofrestredig i'r rhai sy'n defnyddio gofal a chymorth – mae'n debygol y bydd yr heddlu a'r gwasanaeth diogelu yn rhan o'r broses ac mae'n bosibl bod yr unigolyn cofrestredig wedi'i atal neu wedi ei gadael ei fan gwaith neu efallai fod yna ddiffyg ymgysylltu gan yr unigolyn cofrestredig.
 - Achosion risg canolig fydd y rhai lle mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr atgyfeiriad yn gyfyngedig ond ymddengys bod pryderon ynghylch ymarfer er

y gall fod angen rhagor o wybodaeth cyn pennu'r ffordd orau o benderfynu'r achos;

- Gall yr unigolyn cofrestredig ail-gyfryngu achosion risg isel pan fydd y cyflogwr wedi ymdrin â'r mater yn briodol a gall fod cynllun gweithredu ar waith;
- Wrth symud ymlaen, ni fyddai achosion risg isel yn cael eu hagor a byddai adnoddau'n canolbwyntio ar yr achosion risg ganolig a risg uchel.

- iii. Nid oedd unrhyw gwestiynau gan aelodau am yr egwyddorion ar wahân i'r rhai a godwyd ymlaen llaw ac y soniodd HD amdanynt yn ei sylwadau agoriadol.
- iv. Cyfeiriodd HD at y drafodaeth fanwl a gynhaliwyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr ynghylch achosion yr 18 mis diwethaf. Mae'r mater hwn hefyd yn cael ei drafod fel mater o drefn yn y Pwyllgor Rheoleiddio a Safonau. Mae dadansoddiad o achosion wedi'i gynnwys yn y papur sy'n dangos y ffactorau sy'n gysylltiedig â'r achosion hynny.
- v. Mewn ymateb i gwestiynau a godwyd gan SB cyn y cyfarfodydd, dywedodd HD ei fod yn credu y byddai addasu'r targed yn gwella morâl y tîm AiY, er nad yw morâl yn isel ar hyn o bryd ac mae'r tîm wedi addasu'n dda i weithio o bell o dan yr amgylchiadau presennol. Fodd bynnag, mae gweithio i darged yr ystyrir ei fod yn afrealistig wedi achosi rhwystredigaeth o fewn y tîm.
- vi. Mewn perthynas â datganiadau tystion, nododd HD ein bod yn ceisio gweithio mewn partneriaeth â chyflogwyr a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n un o ofynion y Cod Ymarfer ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â phrosesau AiY. Nid yw tystion bob amser yn ymateb mor gyflym â'r disgwyl a gall y broses o gael datganiadau gan gyflogwyr fod yn un fiwrocraidd. Gellid gwneud mwy o ddefnydd o Adran 160 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol, gan ei bod yn rhoi'r pŵer i fynnu gwybodaeth gan unigolion neu gyrff sy'n ymwneud ag achosion AiY. Cytunodd HD i gydweithio â'r tîm AiY er mwyn datblygu meini prawf ynghylch pa bryd y dylid defnyddio'r pwerau hyn.

GWEITHREDU

- vii. Nododd HD, gan fod nifer o wrandawiadau wedi eu gohirio oherwydd Covid-19, ei bod yn debygol yn ystod 3-6 mis cyntaf 2020-21, y bydd nifer yr achosion dros 18 mis yn parhau i fod yn uchel. Mae cynnal gwrandawiadau o bell yn cael ei ystyried ac mae gwrandawiadau gorchymyn interim yn cael eu cynnal o bell ar hyn o bryd. Bydd effaith y newidiadau mewn perthynas â'r egwyddorion yn golygu y bydd yr adnoddau yn canolbwyntio ar achosion risg canolig ac uwch ac mae'n debygol y bydd cynnydd yn y nifer oherwydd bod y Gofrestr wedi cynyddu. Gall hyn effeithio ar berfformiad ac mae'n golygu y bydd angen mynd ati'n rheolaidd i ystyried mesurau effeithlonrwydd.
- viii. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan yr aelodau gwestiynau neu sylwadau am y mater fel a ganlyn:-
- Gofynnodd EB a oedd modelau amgen y gellid eu hystyried, fel model dau gam. Cadarnhaodd HD fod swyddogion yn agored i syniadau ond pwysleisiodd fod y newid arfaethedig i darged y cynllun busnes yn ymwneud â sut caiff prydlondeb ei adrodd yn y dull presennol o weithio. Mae rheolyddion y DU, gyda'i gilydd, yn ystyried metrigau, a bydd hyn hefyd yn llywio'r ffordd y byddwn yn meddwl am ddulliau gweithredu yn y dyfodol.

- Gofynnodd EB a oedd cyllideb y gwrandawiadau wedi ei chynyddu yn 2020-21 er mwyn dwyn i ystyriaeth y cynnydd mewn gweithgarwch. Cadarnhaodd HD fod y gyllideb wedi'i chynyddu yn unol â'r cynnydd mewn gweithgarwch. Fodd bynnag, mae rhai arbedion effeithlonrwydd hefyd, megis gwrandawiadau symlach, swyddogion yn cyflwyno gwrandawiadau o bell ac yn clystyru gwrandawiadau, a allai arwain at arbedion yn y gyllideb.
- Gofynnodd PM a allai'r Bwrdd gael yr holl wybodaeth am gynnydd hen achosion a bod y broses o adrodd ar berfformiad yn cynnwys data sylfaenol ar gyfer yr achosion hynny lle nad yw'r oedi o ganlyniad i ffactorau allanol. Cadarnhaodd HD fod y Pwyllgor Rheoleiddio a Safonau yn craffu ar adroddiadau manwl a'u bod yn cael data am hyd cyfartalog yr amser er mwyn mynd ar drywydd achos. Awgrymodd y byddai'n bosibl sicrhau bod y wybodaeth honno ar gael i holl aelodau'r Bwrdd ar y porth.
- Holodd PM ynghylch monitro perfformiad a sut y byddai aelodau'r Bwrdd yn cael eu diweddarau yn y dyfodol. Ymatebodd DP gan dynnu sylw at broses y flwyddyn ddiwethaf er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r prosesau. Mae hyn wedi dangos, wrth fynd ati i asesu'r ffordd y caiff AiY ei gyflawni, nad achosion dros 18 mis yw'r unig ddangosydd; Mae angen darlun mwy cyflawn ac eang, a'r cam nesaf fydd datblygu'r dangosyddion mwyaf ystyrion. Mae Cymru'n arwain y gwaith ar sail y DU er mwyn datblygu cyfres o ddangosyddion a fydd yn caniatáu rhannu data ledled y DU. Bydd y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn cael ei rhoi'n rheolaidd i'r Pwyllgor Rheoleiddio a Safonau a'r Bwrdd ac ar ba mor dda y mae'r sefydliad yn cyflawni o'i gymharu â'r hyn yr oeddem yn arfer ei wneud a sut mae hynny'n cymharu â rheoleiddwyr eraill y DU.
- Gofynnodd RWJ a gadarnhawyd yn bendant na ellir mynd ar drywydd achosion AiY yr u pryd ag ymchwiliad gan yr heddlu. Ymatebodd HD fod hyn yn bendant, er mwyn sicrhau gwrandawriad teg.
- Ychwanegodd DH nad yw effaith ymchwiliadau'r heddlu yn fater sy'n gyfyngedig i ofal cymdeithasol. Cadarnhaodd HD fod hyn yn wir, gan fod rheoleiddwyr eraill yn wynebu'r un materion a'u bod wedi ceisio dylanwadu ar y Llywodraeth i wneud newidiadau, er yr ymddengys nad oes llawer o gynnydd ar hyn.
- Cododd JK fater yr oedi cyn cymryd datganiadau. Nododd HD fod rhai rheolyddion yn defnyddio cyfreithwyr i gael datganiadau a bod graddau llwyddiant y rheiny'n amrywio. Mae hyn yn rhywbeth y gellir ei ystyried, ond efallai mai defnyddio Adran 160 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol fydd y dewis cyntaf i'w ystyried er mwyn cael ymateb yn gynt.

- ix. Gofynnodd PM a ellir cyfeirio a gwirio'r cwestiynau a ofynnwyd heddiw yn erbyn y broses o ddatblygu metrigau newydd. **GWEITHREDU**
- x. Roedd DB yn croesawu'r awgrym y gellid defnyddio pwerau rheoleiddio yn amlach a gofynnodd a fyddai defnyddio cyfreithwyr i gael datganiadau tyst yn arwain at gost ychwanegol. Cytunodd HD y byddai cost ychwanegol wrth ddefnyddio cyfreithwyr ac y byddai angen bod yn ofalus o ran cydbwysedd yr adnoddau, gwerth am arian a chynnal diogelwch y cyhoedd.
- xi. Gofynnodd GQ sut rydym yn sicrhau cydbwysedd rhwng ethos deniadol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn â chymryd datganiadau yn brydlon, hyd yn oed os yw hyn yn golygu proses fwy ffurfiol. Cytunodd HD fod dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn

bwysig; fodd bynnag, mae angen cydnabod, fel rheoleiddiwr, bod prosesau ffurfiol i'w dilyn.

- xii. Rhoddodd y Cadeirydd grynodedb o'r trafodaethau a nododd fod cytundeb ar yr egwyddorion. Fodd bynnag, roedd y cynnig i newid targed y cynllun busnes ar gyfer achosion AiY sy'n bodoli ers dros 18 mis yn ddyfarniad anodd o gofio mai'r ateb yn y tymor hirach yw cyfres wahanol o ddangosyddion perfformiad sy'n caniatáu i Gofal Cymdeithasol Cymru feincnodi ei berfformiad yn erbyn sefydliadau tebyg eraill. Ar y sail honno, awgrymodd y Cadeirydd fod tri opsiwn i'w hystyried:-
 - Gadael y targed fel y mae;
 - Amrywio'r targed i 10%;
 - Peidio â gosod targed rhifiadol ac yn hytrach monitro achosion sy'n bodoli ers dros 18 mis drwy'r Pwyllgor Rheoleiddio a Safonau.
- xiii. Nododd DP y bydd angen targed a ffordd o fesur y targed hwnnw gan ei fod yn un o ofynion Llywodraeth Cymru. Awgrymodd y byddai symud i 10% yn dangos bod y Bwrdd yn gwrando ar bryderon aelodau staff ac yn adlewyrchu realiti'r sefyllfa.
- xiv. Roedd barn yr Aelodau ar yr opsiynau yn gymysg. Nododd SE ei bod yn ffafrio mabwysiadu'r targed o 10% a argymhellir, oni bai y caiff newidiadau eu hawgrymu yng ngoleuni'r hyn y mae rheoleiddwyr eraill yn ei wneud. Gofynnodd EB a ellid newid y targed i 15% a allai fod yn fwy realistig o ystyried cwmpas y perfformiad dros y 12-18 mis diwethaf.
- xv. Ymatebodd DP i'r safbwyntiau a fynegwyd gan yr Aelodau ac er bod y targed presennol yn afrealistig, mae angen sicrhau bod gan aelodau staff rywbeth i ganolbwyntio arno ac ysgogiad i gyflymu'r prosesau ac osgoi llithro. Atgoffwyd yr aelodau fod hyn yn rhan o'r ffordd y mae sefydliadau'n adrodd i Lywodraeth Cymru ac y bydd angen cynnal trafodaethau â hwy er mwyn cadarnhau unrhyw newidiadau i'r targedau.
- xvi. Ar ôl trafod, awgrymodd y Cadeirydd ei bod yn ymddangos bod consensws o blaid gosod targed interim o 10%, a gofynnodd a fyddai unrhyw un a oedd yn gwrthwynebu i fynegi hynny. Nid oedd unrhyw arwyddion o anghytundeb.
- xvii. Cytunodd yr Aelodau i **nodi** a **chraffu** ar benderfyniad y Tîm Rheoli Gweithredol i dreialu cyfres o egwyddorion strategol ar gyfer gwaith AiY a **chytunwyd** ar newid yn nharged y cynllun busnes o 5% i 10% o gyfanswm yr achosion addasrwydd i ymarfer a oedd ar agor dros 18 mis ar gyfer cyfnod adrodd 2020/21.

9. Cyfleodd i gryfhau Llywodraethu Corfforaethol

- i. Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o'r cyd-destun ar gyfer y papur hwn. Dangosodd dystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau allanol fod trefniadau llywodraethu'r Bwrdd yn gadarn ac yn addas i'r diben ar y cyfan. Fodd bynnag, mae angen mynd ati bob amser i geisio gwella a chryfhau'r trefniadau presennol yn barhaus.

- ii. Yn dilyn sesiwn Datblygu'r Bwrdd ym mis Rhagfyr, nodwyd nifer o gyfleoedd i gryfhau'r trefniant presennol. Yn dilyn hynny, anfonwyd holiadur at yr Aelodau er mwyn cael syniad o'r hyn yr oedd aelodau'n teimlo sy'n werth ei ddilyn ymhellach. Mae'r ymatebion hynny bellach wedi dwyn ynghyd mewn papur ac mae awgrym wedi'i fapio, gan gynnwys llinell amser ar gyfer gweithredu.
- iii. Atgoffwyd yr Aelodau nad oedd gofyn iddynt gytuno ar unrhyw beth penodol heddiw, dim ond i gefnogi'r ffordd ymlaen fel y nodwyd yn y papur. Byddai cynigion penodol yn cael eu dwyn yn ôl i'r Bwrdd i'w hystyried yn unol â'r amserlen a sefydlwyd.
- iv. Ymatebodd y Cadeirydd i nifer o gwestiynau a oedd wedi'u cyflwyno cyn y cyfarfod:-
- Dywedodd SB, o ystyried y sefyllfa bresennol, nad ydym yn ceisio mynd â chyfarfodydd Bwrdd allan i'r gymuned am y 12 mis nesaf. Aeth y Cadeirydd ati i sicrhau'r aelodau mai'r bwriad ar hyn o bryd yw, yn syml, archwilio'r manteision posibl o wneud hynny a chwilio am enghreifftiau o'r hyn sy'n gweithio mewn sectorau eraill. Byddai'r mater yn dod yn ôl gerbron y Bwrdd i'w drafod cyn y byddai unrhyw drefniadau'n cael eu gwneud ond nid oedd hyn yn flaenoriaeth ar hyn o bryd;
 - Gofynnodd EB ynghylch aelodaeth a chworwm y Pwyllgor. Nododd y Cadeirydd enghraifft o'r angen i addasu agenda cyfarfod oherwydd nad oedd cworwm yn y Pwyllgor gydol y cyfarfod. Cadarnhaodd LIB fod cyfarfod Mehefin 2019 o Bwyllgor Rheoleiddio a Safonau wedi'i ohirio tan fis Gorffennaf oherwydd absenoldeb ac oherwydd mai dim ond tri aelod sydd wedi bod yn bresennol mewn nifer o gyfarfodydd Pwyllgor yn ddiweddar, sef yr isafswm sydd ei angen i fod â chworwm.
 - Cadarnhaodd y Cadeirydd fod dod o hyd i rai ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor yn ymwneud ag absenoldebau a gynlluniwyd ymlaen llaw, lle byddai'r Aelod yn nodi ei absenoldeb i'r tîm Llywodraethu Corfforaethol a fyddai wedyn yn ceisio dod o hyd i aelod arall i sefyll i mewn. Nid oedd yn fwriad i'r Aelodau orfod dod o hyd i rywun yn eu lle pe bai yna absenoldeb funud olaf heb ei gynllunio;
 - Gofynnodd EB am sicrwydd, wrth geisio mynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau o fewn y Bwrdd drwy recriwtio, y bydd y dull presennol, sy'n seiliedig ar werthoedd, yn cael ei gynnal. Dywedodd y Cadeirydd fod yr holl brosesau ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus wedi'u gohirio am 12 mis oherwydd yr argyfwng presennol, sy'n golygu y bydd tymor aelodau'r Bwrdd yn cael ei ymestyn am flwyddyn, yn amodol ar eu cytundeb a pherfformiad boddhaol. Sicrhaodd y Cadeirydd yr Aelodau y bydd y broses yn parhau'n seiliedig ar werthoedd pan fydd y broses penodiadau cyhoeddus yn ailddechrau, a byddant hefyd yn chwilio am setiau sgiliau sy'n ychwanegu gwerth at gymhwysedd cyffredinol y Bwrdd.
 - Cododd PM y mater o amlygrwydd a hygyrchedd y Bwrdd i aelodau staff a gofynnodd a oedd cyfleoedd i ymgysylltu â staff dros ginio a chyfle i aelodau staff rannu unrhyw bryderon. Ymatebodd y Cadeirydd y byddai hyn yn cael ei ystyried ac yn cael ei adlewyrchu yn yr amserlen ddatblygu. **GWEITHREDU**
 - Fe wnaeth CC gyfeirio at sylwadau PM a nodi bod angen ystyried yn ofalus y broses 'Bwrdd i'r Llawr', sy'n cael ei mabwysiadu mewn rhai sefydliadau, er mwyn sicrhau y byddai'n gweithio yn y cyd-destun y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithredu ynddo.

- iii. Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cwestiynau a'u sylwadau a chadarnhaodd y bydd y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith hwn yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf. **GWEITHREDU**

Er gwybodaeth:

10. Negeseuon allweddol gan y Prif Weithredwr

- i. Gofynnodd y Cadeirydd i SE dynnu sylw'r Aelodau at unrhyw ddatblygiadau allweddol.
- ii. Hysbysodd SE yr Aelodau y cynhaliwyd cyfarfod o reoleiddwyr iechyd a gofal cymdeithasol y DU ar 29 Ebrill. Mae hwn yn grŵp newydd a ddechreuodd gyfarfod tua diwedd 2019. Roedd eitemau allweddol y drafodaeth fel a ganlyn:-
- Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn cymharu eu hymatebion i Covid-19 ac yn trafod sut y bydd yr hyn a ddysgir yn cael ei ddefnyddio. Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi cynnal 180 o baneli rhith ac mae wedi rhannu rhai o'r anawsterau a gafwyd o ran prydlondeb a pharatoi ar gyfer ôl-drafodaethau uwch. Mae elfennau gweinyddol wedi bod yn fwy costus, a bydd rhagor o waith dadansoddi yn cael ei wneud a allai lywio dull Gofal Cymdeithasol Cymru wrth symud ymlaen. Trafodwyd diogelwch systemau rhith hefyd wrth ymdrin â materion sensitif.
 - O ran cofrestru brys dros dro, nid yw'r ymateb wedi bod mor arwyddocaol ag a ddisgwyliwyd yn wreiddiol. Efallai fod hynny oherwydd pryderon personol ynghylch dychwelyd i ymarfer yn ystod yr argyfwng. Fodd bynnag, credir y bydd mwy o alw o bosibl yn ystod y cyfnod adfer. Er enghraifft, fe wnaeth y Cyngor Meddygol Cyffredinol gynnwys 30,000 o feddygon ond dim ond 3,000 a gadarnhaodd eu hunain eu bod yn barod i weithio a dim ond 50% o'r rheini a leolwyd ar y rheng flaen i ymdrin â Covid-19. Mae eraill yn bwriadu cynorthwyo gyda'r gwaith adfer a gwaith dewisol. Mae diffyg cyfathrebu hefyd rhwng cyflogwyr a'r cyrff rheoleiddio o ran cadw golwg ar leoliad y gweithwyr.
 - Mae rhai sydd wedi cofrestru â fframweithiau rheoleiddio eraill yn galw am hepgor eu ffioedd yn y cyd-destun presennol. Atgoffodd SE yr Aelodau nad oedd ffi ar gyfer cofrestr argyfwng Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi derbyn deiseb ac mae cwestiwn wedi ei godi yn Senedd yr Alban. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod ffioedd yn rhan bwysig o incwm ac, mewn unrhyw achos, nid ydynt yn talu'n llawn am gostau rheoleiddio i'r rhan fwyaf o reoleiddwyr gofal cymdeithasol. Mae rhai cyrff rheoleiddio ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn y maes iechyd yn cael eu hariannu'n llwyr gan incwm ffioedd sy'n gwneud y syniad o hepgor ffioedd yn anymarferol.
 - I rai rheolyddion iechyd, sy'n ymdrin â darparwyr annibynnol fel optegwyr, gan fod y stryd fawr ar gau, mae risg y bydd y busnes yn cau a fydd yn cael effaith ar y rhai sydd wedi cofrestru a'r cyrff rheoleiddio drwy'r ffioedd a dderbynnir.
 - Mae Sefydliadau Addysg Uwch yn hyblyg gyda chyrtsiau cymhwysol ac maen nhw'n cefnogi myfyrwyr, er eu bod yn wynebu heriau sylweddol o ran incwm gan fyfyrwyr tramor a bydd angen i swyddogion barhau i siarad â phrifysgolion Cymru.

- Mae rhywfaint o anffodlonrwydd nad yw rhai fferyllwyr cymunedol yn gymwys efallai ar gyfer y cynllun "marw yn y swydd" gwerth £60,000.
- Mae rhai cyrff yn rhagweld y bydd angen y gofrestr argyfwng dros dro ar ôl yr argyfwng presennol, gan ei bod yn debygol y bydd mwy o alw yn ystod y cyfnod adfer. Ar gyfer y sector gofal cymdeithasol, disgwylir y bydd mwy o alw yn debygol ar gyfer materion yn ymwneud â cham-drin domestig, iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, gamblo ar-lein a materion diogelu ehangach. Cytunodd pob corff nad yw trosglwyddo awtomatig i'r gofrestr barhaol yn briodol ar gyfer y rhai sy'n gofyn am gael eu derbyn.
- Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt am gofeb DU gyfan ar gyfer cydweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol sydd wedi marw, sy'n cael ei datblygu gan Lywodraeth y DU

iii. **Nododd** yr aelodau y wybodaeth ddiweddaraf gan SE.

11. Effeithiolrwydd y cyfarfod

i. Gofynnodd y Cadeirydd gyfres o gwestiynau i'r Aelodau ynghylch effeithiolrwydd y cyfarfod.

ii. **Cytunodd** yr Aelodau ar y canlynol:

- Roeddent wedi bod yn glir ynghylch yr hyn a oedd yn cael ei ofyn ganddynt yn y papurau;
- Nid oeddent yn teimlo bod unrhyw bapurau lle byddai gwybodaeth bellach neu ddarllen cefndirol wedi bod yn ddefnyddiol;
- Aeth y Bwrdd ati i ddatblygu eitemau allweddol mewn modd effeithlon;
- Roedd yr holl eitemau ar yr agenda a ystyriwyd yn amserol ac yn berthnasol ac roedd yr Aelodau wedi bod yn glir ynghylch y penderfyniadau a wnaed.

iii. Gan mai hwn oedd cyfarfod o bell cyntaf y Bwrdd, cynigiodd y Cadeirydd y dylid cynnal ôl-drafodaeth ar-lein i nodi'r hyn a weithiodd yn dda, yr hyn nad oedd yn gweithio cystal â'r hyn y gellid ei ddysgu ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

GWEITHREDU.

12. Unrhyw Fater Arall

i. Diolchodd y Cadeirydd a Chadeiryddion y Pwyllgorau i JO am ei chyfraniad a'i hymrwymiad i Gofal Cymdeithasol Cymru wrth iddi symud i'w rôl newydd fel Prif Swyddog Gweithredol y gymdeithas tai Valleys to Coast.

Dyddiad y cyfarfod nesaf:

Dydd Iau 16 Gorffennaf 2020, gyda chyfarfod arbennig i'w drefnu cyn diwedd Mai er mwyn cymeradwyo Cynllun Busnes 2020-21.



Gofal Cymdeithasol Cymru Social Care Wales

CYFARFOD PREIFAT O'R BWRDD

28 Mai 2020

Cyfarfod Rhithwir Zoom

13:00 – 14:40

Yn bresennol:

Aelodau o'r Bwrdd:

Mick Giannasi
Carl Cooper
Damian Bridgeman
Emma Britton
Grace Quantock
Jane Moore
Jo Kember
Kate Hawkins
Peter Max
Rhian Watcyn Jones
Simon Burch
Trystan Pritchard

Swyddogion Gofal Cymdeithasol Cymru:

Sue Evans (Prif Swyddog Gweithredol)
David Pritchard (Cyfarwyddwr Rheoleiddio)
Sarah McCarty (Cyfarwyddwr Gwella a Datblygu)
Geraint Rowlands (Cyfarwyddwyr Cynorthwyol Cyllid a TGCh)
Kate Salter (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol)
Llinos Bradbury (Uwch Swyddog Llywodraethu - cofnodion)

Yn bresennol:

Matthew Thomas, Y Gangen Lles a Gwella, Llywodraeth Cymru
Natalie Price

Sesiwn breifat:

1. Croeso a Sylwadau Agoriadol gan y Cadeirydd

- i. Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod arbennig y Bwrdd lle'r oedd y ffocws ar Gynllun Busnes 2020-21. Estynnwyd croeso cynnes i Matthew Thomas o'n tîm noddi yn Llywodraeth Cymru a oedd yn arsylwi ar y cyfarfod.
- ii. Nododd y Cadeirydd nad oedd unrhyw ymddiheuriadau wedi dod i law ar gyfer y cyfarfod. Cadarnhaodd LIB fod Abigail Harris a Maria Battle yn mynychu cyfarfodydd eu Bwrdd lechyd ac y gallent ymuno'n nes ymlaen os ydynt ar gael. Nodwyd bod Donna Hutton yn absennol o'r cyfarfod.
- iii. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau newydd o fuddiant.

2. Cynllun Busnes 2020-21

- i. Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau o drafodaethau blaenorol ar y Cynllun Busnes, a oedd yn cynnwys y fframwaith drafft ym mis Ionawr a throsolwg o'r fframwaith diwygiedig yn wyneb Covid-19 yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ebrill. Mae'r Cynllun

Busnes wedi cael ei ailddrafftio gyda ffocws ar gefnogi'r sector gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar yn dilyn Covid-19. Diolchwyd i'r Aelodau am eu hadborth cychwynnol ar y cynllun yn dilyn trafodaethau yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ebrill.

- ii. Cyflwynodd SE y papur gan nodi bod y Cynllun Busnes yn adlewyrchu'r dysgu a gafwyd o'r adolygiad o'r Cynllun Strategol a'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Cordis Bright ar effaith y sefydliad a'r gwaith a wnaed gan Grant Thornton ar yr agwedd gwella a thystiolaeth ar waith y sefydliad. Cadarnhaodd SE y bydd gan bob gweithgaredd yn y Cynllun Busnes ddogfen cychwyn prosiect sy'n nodi'r risgiau, y manteision, y targedau a'r llinellau amser; bydd y manylion yn cael eu trafod ar lefel pwyllgor. Bydd y gweithgareddau a gyflawnir yn dibynnu ar gadarnhad o'r adnoddau sydd ar gael yn ogystal â gwaith partneriaeth. Er bod y cynllun busnes drafft wedi'i drafod gyda chydweithwyr Polisi Llywodraeth Cymru, dywedodd SE wrth y Bwrdd nad yw'r gyllideb gyfredol wedi'i chadarnhau eto ac nad yw'r Llythyr Cylch Gwaith ar gyfer 2020-21 wedi'i dderbyn. Nododd SE drafodaethau cadarnhaol gyda Llywodraeth Cymru ar y pwysau cyllidebol, sydd wedi'u trafod yn flaenorol, a'r gobaiith yw y bydd dyraniad y gyllideb yn caniatáu i'r gweithgareddau yn y cynllun busnes gael eu datblygu. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd pwysau ariannol yn cynyddu'r flwyddyn nesaf gyda gostyngiadau posibl yn y gyllideb, felly mae cynllun busnes eleni yn cynnwys cynigion gwariant er mwyn helpu gyda gostyngiadau posibl yn y dyfodol, mae hyn yn cynnwys adolygu opsiynau pensiwn, buddsoddi mewn seilwaith TG a meddalwedd, comisiynu arbenigedd, a chwilio am arbedion effeithlonrwydd drwy'r rhaglen waith rheoleiddio ar gyfer gwella.
- iii. Pwysleisiodd SE nad yw tôn na geiriad y Cynllun Busnes wedi'u cwblhau eto hyd nes y bydd adborth a mewnbwn wedi dod i law oddi wrth y Bwrdd a chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru. Dymunai SE ddiolch i'r holl swyddogion a fu'n rhan o'r gwaith o lunio'r cynllun busnes diwygiedig. Atgoffodd SE yr aelodau o themâu'r cynllun busnes:
 - Gweithlu uniongyrchol y blynyddoedd cynnar a gofal cymdeithasol
 - Rheolwyr, arweinwyr a pherchnogion
 - Arweinwyr systemau a rhanddeiliaid
 - Gofal Cymdeithasol Cymru fel sefydliad
- iv. Ategododd DP fod y cynllun busnes diwygiedig wedi cael ei lunio mewn cyfnod byr ac felly mae adborth ar gysondeb iaith wedi bod yn ddefnyddiol. Nododd DP fod y Cynllun Busnes yn wahanol i'r ffordd y byddai'n cael ei gyflwyno fel arfer oherwydd effaith Covid-19 a'r dystiolaeth a gasglwyd, gan gynnwys sgysiau gyda'r Bwrdd ynghylch rheoleiddio ar gyfer gwella, a'r cynnig o ran gwelliant a thystiolaeth. Cyfeiriodd DP at y cynllun ar y dudalen fel rhan o'r cynllun busnes sy'n dangos matrices yr amrywiaeth o randdeiliaid rydym yn gweithio gyda nhw â'r ffordd rydym yn gweithio â nhw. Mae yna gyfeiriad at yr ymateb i'r pandemig Covid-19, ac at adeiladu a chefnogi adferiad ar gyfer y sector. Cyfeiriodd DP at drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant a'r ffordd y bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn mynd ati i gefnogi'r effaith a'r gwaith ail-lunio er mwyn cynorthwyo sector gwahanol ag anghenion gwahanol a fydd yn dod i'r amlwg yn dilyn y pandemig. Tynnodd DP sylw at feysydd allweddol yn y cynllun busnes:
 - O fewn rhaglen 1 – newid y cynnig a roddwn i'r gweithlu uniongyrchol, gan gynyddu'r cynnig digidol drwy newid y porth cofrestru i alluogi pobl i gael

mynediad at hyfforddiant, cadw gwybodaeth, rhwydweithio, casglu portffolio o dystiolaeth; yr ail faes yw llesiant, lle caiff tystiolaeth o Strategaeth y Gweithlu ei datblygu

- Mae Rhaglen 2 yn ymwneud â chydweithio â darparwyr, rheolwyr a chyflogwyr mewn sectorau annibynnol, gwirfoddol a statudol, fel rhan o hyn y mae'r gwasanaeth cyswllt cyflogwyr sy'n cysylltu gweithgarwch rheoleiddio a'r broses o ddatblygu cysylltiad â'r rhai sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau.
- Mae Rhaglen 3 yn canolbwyntio ar waith ymchwil a gwybodaeth ar gyfer y rhai sy'n gyfrifol am gynllunio a chomisiynu gwasanaethau; caiff hyn ei lywio gan waith Grant Thornton
- Mae rhaglen 4 yn ymwneud â Gofal Cymdeithasol Cymru fel sefydliad ac mae'n ymrwymo i drawsnewid i sefydliad digidol yn gyntaf sy'n deall ac yn croesawu pŵer technoleg.

v. Nododd DP fod y cynllun busnes drafft wedi cael ei rannu â Llywodraeth Cymru a chafwyd adborth ar y cynnig ychwanegol o fwrsariaeth, a fydd yn golygu newid yn yr iaith a ddefnyddir yn y cyswllt hwn.

vi. Yn dilyn y cyflwyniad gan SE a DP, nododd y Cadeirydd fod anodiadau wedi'u derbyn ar y papur gan JK a GQ, ac mae SE wedi ymateb iddynt. Felly, symudodd y Cadeirydd ymlaen at gwestiynau a sylwadau gan Aelodau:

- Roedd PM wedi cyflwyno cwestiynau cyn y cyfarfod, ac ymdrinnir â rhai ohonynt y tu allan i'r cyfarfod, ond roedd PM am dynnu sylw at y ffaith bod gofalcwyr di-dâl wedi'u hepgor yn y Cynllun Busnes. Nododd SMcC y bydd gweithgareddau amrywiol ar gael i unigolion sy'n defnyddio cymorth, teuluoedd a gofalcwyr di-dâl a dyma un o uchelgeisiau'r gwaith, ond, yn y bôn, y rhai y byddwn yn gweithio gyda nhw y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol fydd yn cael y prif sylw. Atgoffodd SMcC yr Aelodau fod Gofal Cymdeithasol Cymru yn aelod o'r Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar ofalcwyr, sy'n ystyried cynlluniau gweithredu a goblygiadau Covid-19.
- Gofynnodd PM a fyddai proses adolygu'r Cynllun Busnes yn wahanol eleni. Cadarnhaodd SMcC y byddai adolygiadau chwarterol yn parhau i gael eu cyflwyno i'r Bwrdd; Fodd bynnag, gan fod ansicrwydd ynghylch ail don o Covid-19 byddai angen diwygio ac addasu'r Cynllun Busnes ar sail hynny, er mwyn sicrhau bod y sector yn parhau i gael ei gefnogi. Mae'r cynllun presennol yn cynnwys gweithgareddau sy'n gofyn am ymgysylltu gan y sector ac felly bydd angen iddo fod yn ddeinamig ac yn ystwyth.
- Roedd PM yn credu bod yr uchelgais ddigidol yn galonogol, ac os oes modd, dylid ceisio ei hymestyn ymhellach. Nododd SMcC fod dysgu a rhwydweithiau digidol yn rhywbeth sydd wedi'i ystyried ers peth amser ond hyd yn hyn mae wedi bod yn anodd ymgysylltu â'r sector ynghylch dulliau digidol; Fodd bynnag, oherwydd newidiadau diweddar, mae'r sector mewn sefyllfa llawer gwell bellach i fanteisio ar dechnoleg newydd. O ran dysgu'r gweithlu, nododd SMcC y cyfle i gynnig dull mwy integredig i unigolion cofrestredig yn benodol. Nododd DP fod y berthynas ddigidol bresennol â'r gweithlu wedi'i chyfyngu i gofrestru, Hyfforddiant a Dysgu Ôl-gofrestru (PRTL). Yr uchelgais yw gweld Gofal Cymdeithasol Cymru fel yr hyb y maen nhw'n troi ato am gyngor ac arweiniad, i gael yr adnoddau sydd eu hangen arnynt yn ogystal â'r cyfle i siarad ag eraill yn y sector.

- Roedd EB yn cefnogi'r cynnig digidol gwell i'r rhai yn y sector. Gan fod y gweithlu'n gweithio o bell ar hyn o bryd, bydd y gallu i gael rhwydweithiau digidol a rhyngweithio'n amhrisiadwy.
- Gofynnodd JK am i'r gwaith digidol gael ei ddiogelu at y dyfodol, a allai gynnwys datblygiadau i gofnodi Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ar-lein. Cadarnhaodd DP mai'r uchelgais yw i bobl allu olrhain eu horiau PRTL yn rhwydd. Ychwanegodd SMcC fod darparwyr wedi holi'n flaenorol ynghylch y syniad o basbort gwybodaeth a sgiliau er mwyn osgoi dyblygu dysgu ac felly mae hyn yn bosibilrwydd arall i'w archwilio dan y cynnig digidol gwell.
- Roedd DB yn falch o weld beiddgarwch y cynnig digidol a gofynnodd a fyddai'r sefydliad yn ystyried yr hyn sydd ar y farchnad ar hyn o bryd gan fod yna nifer o blatfformau digidol eisoes y gellid eu defnyddio. Gofynnodd DB a fyddai modd sicrhau hefyd bod y platfformau digidol yn hygyrch ac yn hwylus i ffonau symudol.
- Gofynnodd y Cadeirydd a oedd gan y sefydliad y modd a'r gallu i fwrw ymlaen â'r uchelgais ddigidol. Nododd SE y bydd arbenigwyr yn cael eu comisiynu i helpu gyda'r rhaglen waith ddigidol.
- Nid oedd PM o'r farn bod cwmpasu ymarfer sy'n sefydlu o'r Gwobrau yn ddigon uchelgeisiol, ond roedd yn cydnabod hefyd y bydd angen gweithio mewn partneriaeth. Nododd SMcC fod y cynllun busnes yn cynnwys gweithgaredd i rannu ymarfer nodedig mewn perthynas â Covid-19 ac mae angen ei gysylltu â'r gwobrau. Soniodd SMcC am yr anawsterau o ran sut i rannu fel y gellir sefydlu ymarfer da. Mae yna ymrwymiad i fynd ymhellach na chwmpasu ac i geisio edrych ar sut y gellid gwneud hynny. Mae nifer o sefydliadau'n gofyn i'r sefydliad sut y gellid defnyddio'r dysgu o Covid-19 yn enwedig pe bai ail don yn digwydd. Nododd SMcC fod trafodaethau wedi dechrau a bod arbenigwyr ar gael a'n bod yn ystyried cydweithio â nhw a dysgu ganddynt.
- Roedd PM yn teimlo y gellid gwneud mwy o ran mesur effaith a mesur y cwmpas, neu o ran gwella cwmpas yr ymarfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Nododd SMcC, er y gellir casglu adborth gan y rhai sydd wedi dilyn yr hyfforddiant, ni allwn fesur pa wahaniaeth y mae hynny'n ei wneud i deuluoedd drwy gael y sgysiau 'beth sy'n bwysig iddynt'. Tynnodd SMcC sylw at y gwerthusiad a arweinir gan Lywodraeth Cymru o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant lle dylid cael adborth ar gynnydd ymarfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Dywedodd PM fod angen i'r Cynllun Busnes fod yn realistig o ran y data a'r adborth y gellir ei gasglu.
- Cyfeiriodd RWJ at y gwaith o newid ffocws y cynllun busnes yn y cyfnod byr o amser sy'n gosod sylfaen dda ar gyfer yr hyn sy'n mynd i gael ei gwblhau. Gofynnodd pa weithgareddau fyddai wedi cael eu gwneud ond nad ydynt yno bellach oherwydd yr angen i newid ffocws. Efallai y bydd angen egluro pa weithgareddau sy'n cael eu hoedi er mwyn canolbwyntio ar y pandemig. Nododd SE na fydd yr holl weithgareddau a'r holl ddysgu wyneb yn wyneb a grŵp a fyddai wedi cael eu gwneud ledled Cymru yn digwydd bellach, sy'n gofyn am lawer iawn o adnoddau fel arfer. Bydd swyddogion yn defnyddio'r gyllideb i gomisiynu cymorth a gallu allanol mewn ffyrdd amrywiol sy'n ofynnol er mwyn cefnogi gweithgareddau'r Cynllun Busnes. Nododd DP fod yna newidiadau o ganlyniad i Covid-19, gwelwyd newid mewn ffocws gyda rhai pethau, er enghraifft bydd y broses o gasglu a darparu tystiolaeth yn cynnwys y gwersi a ddysgwyd o ganlyniad i Covid-19 yn awr. Mae rhywfaint o waith wedi'i aildrefnu o ran amseru, er enghraifft, bydd y penderfyniad ar gofrestru

gweithlu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant fel rhan o'r rhaglen waith pontio yn cael ei wneud yn ystod 2021-22 ac nid yn 2020-21 fel y bwriadwyd yn wreiddiol. Hysbysodd SMcC y Bwrdd na fydd y gwaith mewn perthynas â chynllun peilot Cymraeg Gwaith yn parhau gan fod cyllid wedi'i dynnu'n ôl ar gyfer y sector gofal cymdeithasol yn ogystal â nifer o sectorau eraill gan fod Llywodraeth Cymru wedi symud adnoddau i feysydd eraill.

- Gofynnodd RWJ i swyddogion edrych ar y defnydd o'r gair 'cefnogaeth' sy'n ymddangos yn gyson drwy'r ddogfen er mwyn bod yn gliriach ynghylch natur y berthynas. Roedd RWJ yn croesawu'r cysylltiad rhwng llesiant y gweithlu a Strategaeth ddrafft y Gweithlu fel ffordd o gadw strategaeth y gweithlu ar yr agenda yn y tymor hir.
- Gofynnodd GQ sut mae data'n cael ei gasglu ar yr effaith ar y sector nawr, er mwyn sicrhau bod y cymorth sydd ar gael yn ystod yr adferiad yn seiliedig ar ymchwil. Nododd SMcC nad oes unrhyw ddata ychwanegol yn cael ei gasglu gan Gofal Cymdeithasol Cymru gan fod y cyfrifoldeb hwn yn perthyn i sefydliadau eraill. Fodd bynnag, mae strategaeth ddata yn cael ei chwmpasu ar gais Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau y gellir mynd i'r afael ag unrhyw fylchau mewn data gofal cymdeithasol. Cyn Covid-19, roedd Gofal Cymdeithasol Cymru yn cefnogi gweithredu fframwaith perfformiad awdurdodau lleol, ond mae'r gwaith hwnnw wedi'i oedi ar hyn o bryd oherwydd Covid-19. Bydd swyddogion yn ystyried ceisio dylanwadu ar flaenoriaethau ymchwil sy'n ymwneud â Covid-19 hefyd lle mae cyfleoedd cyllido.
- Gofynnodd GQ am y risg o ran cofrestriadau prifysgol a'r effaith ar hyfforddiant gweithwyr cymdeithasol, a'r opsiynau o ddefnyddio dull hybrid ar gyfer dysgu yn y dyfodol. Nododd DP berthynas waith agos â sefydliadau addysg uwch yng Nghymru fel rheoleiddwyr cyrsiau Gwaith Cymdeithasol. O ran recriwtio ar gyfer y flwyddyn nesaf, mae'r sefyllfa'n edrych yn annisgwyl o gadarnhaol, gyda llawer o brifysgolion ar y trywydd cywir a nifer o geisiadau wedi dod i law. Hefyd, cytunwyd ar drefniadau ar gyfer myfyrwyr sy'n graddio eleni a'r hyn sy'n ofynnol o ran ymarfer ychwanegol ôl-gymhwysio er mwyn gwneud iawn am y meysydd a fethwyd yn ystod y misoedd diwethaf.
- Nododd CC y dylai fod yna gysylltiad cryfach â'r cynllun strategol cyfredol; holodd a oedd iaith yr uchelgais yn ddigon cryf; yn ogystal â gwella'r ymateb i Covid-19, a ddylem fod yn ceisio gwneud y gorau o gyfleoedd hefyd; ac a ellid cynnwys y sector gwirfoddol ym mlaenoriaethau strategaeth y gweithlu. Dywedodd CC hefyd fod yr adran 'pwy ydym ni?' yn ateb y cwestiwn hwnnw ond mae'n nodi arwyddocâd y sector gofal. Diolchodd SE i CC am ei sylwadau a nododd y bydd tŷn ac iaith y ddogfen yn cael eu mireinio. Yn sgil y pandemig, mae naratif newydd ar gyfer gofal cymdeithasol yn cael ei drafod ar lefel y DU ond hefyd yng Nghymru gyda CLILC ac ADSS Cymru. Rydym hefyd yn trafod â Chyddfederasiwn y GIG, yr angen am naratif diwygiedig ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd angen naratif gofal cymdeithasol ar wahân er mwyn dangos yr effaith ehangach o lawer y mae gofal cymdeithasol yn ei chael ar ddiogelu a grymuso plant ac oedolion, yn ogystal â'r rhyngwyneb â'r GIG ar gyfer y rhai sydd ag anghenion clinigol. Ychwanegodd SE fod swyddogion yn ystyried ychwanegu cwestiynau at arolwg Omnibws Llywodraeth Cymru yn ymwneud â chanfyddiad pobl o ofal cymdeithasol yn ystod Covid-19 ac ers y pandemig i'w defnyddio fel tystiolaeth ar gyfer llywodraethau'r dyfodol.
- Gwnaeth JM sylwadau ar y cyflwyniad ar y clawr blaen, y defnydd o lythrennau bach a'r dudalen gynnwys. Gofynnodd JM, o gofio proffil uchel gofal

cymdeithasol ar hyn o bryd, ble mae hyn yn gadael Gwaith Cymdeithasol, a'i deimlad oedd nad yw'r broses o ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau yn cael ei hadlewyrchu'n ddigonol yn y cynllun. Atgoffodd SE yr aelodau bod gwaith yn dal i fynd rhagddo o ran rôl Gweithwyr Cymdeithasol a'u gofynion ôl-gymhwyso, fel rhan o strategaeth y gweithlu.

- Ategododd KH y sylwadau a oedd eisoes wedi'u gwneud a gofynnodd a fyddai modd newid llun y clawr ar gyfer cynllun y flwyddyn hon. Roedd yn croesawu'r syniad o wrando ar brofiadau presennol hefyd, er mwyn llywio'r strategaeth i gefnogi llesiant y gweithlu, gan y gallai fod yna newid yn y ffordd y bydd pobl yn teimlo ar ôl Covid-19.
- Cyfeiriodd JK at ei sylwadau ar y ddogfen y gallai'r amserlenni fod yn uchelgeisiol. Nododd SE eu bod yn uchelgeisiol, ond gellir eu cwtogi os oes angen. Argymhellodd SE fod y Bwrdd yn cydnabod yr angen am fwy o hyblygrwydd nag arfer, oherwydd ansicrwydd y cyd-destun presennol.
- Nododd DP fod dull rhaglen traws-sefydliadol yn cael ei roi ar waith ar gyfer y gwaith eleni, a fydd yn dangos yn gyflym os nad yw cerrig milltir yn cael eu cyflawni ac felly bydd angen ailystyried y gweithgareddau.

vii. Aeth y Cadeirydd ati i grynhoi'r drafodaeth gan nodi bod cefnogaeth i'r Cynllun Busnes a'r uchelgais; yn ogystal â chefnogaeth i'r ffordd y mae'r cynllun wedi'i strwythuro a'r ffordd y mae'n cyfleu'r cyd-destun presennol. Mae problemau manwl wedi'u nodi a byddant yn cael sylw, mae bod yn glir ynghylch yr hyn sydd ddim yn cael ei wneud yn bwysig yn ogystal â'r cysylltiad â'r cynllun strategol.

viii. **Trafododd a chymeradwyodd** y Bwrdd y Cynllun Busnes drafft ar gyfer 2020-2021.

ix. Oherwydd yr amseru, mae'r Aelodau wedi **dirprwyo'r** gymeradwyaeth derfynol i'r Prif Weithredwr a Chadeirydd y Bwrdd yn amodol ar dderbyn y llythyr Cylch Gwaith gan y Dirprwy Weinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

x. Os, ar ôl derbyn y llythyr Cylch Gwaith, y bydd goblygiadau sylweddol o ran yr hyn y gellir ei gyflawni o'r hyn a amlinellwyd yn y Cynllun Busnes drafft hwn, oherwydd blaenoriaethau ariannol neu flaenoriaethau ychwanegol a nodwyd, caiff y Cynllun Busnes drafft ei gyflwyno i Aelodau'r Bwrdd i'w gymeradwyo'n derfynol yng nghyfarfod mis Gorffennaf o'r Bwrdd.

3. Y wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Strategol Gofal Cymdeithasol Cymru

i. Cyflwynodd SMcC yr eitem i'r Bwrdd. Dywedodd SMcC bod y Cynllun Busnes yn Gynllun Busnes blynyddol ond nid yw'r cyfeiriad at y Cynllun Strategol eleni cyn gryfed ag yr oedd yn flaenorol, ond gellir cywiro hyn. Nodwyd bod angen adolygu'r cynllun strategol yng ngoleuni nifer o newidiadau. Cyfeiriodd SMcC at y sleid PowerPoint a oedd yn cynnwys:

- Pam adolygu nawr
- Egwyddorion allweddol ar gyfer yr adolygiad
- Y dystiolaeth allweddol a gaiff ei hystyried fel rhan o'r adolygiad
- Amserlen yr adolygiad gan gynnwys dyddiadau allweddol i'r aelodau eu nodi:
 - Drafft lefel uchel i'w rannu ag aelodau ganol mis Mehefin

- Grant Thornton i gyflwyno eu canfyddiad i'r Pwyllgor Gwella ar 24 Mehefin am 12:00pm gyda gwahoddiad agored i'r holl aelodau ymuno â'r sesiwn honno
- Y Bwrdd i gymeradwyo'r ddogfen ymgynghori ym mis Gorffennaf
- Gorffennaf - Hydref cynnal ymgynghoriad
- Cyhoeddi cynllun strategol newydd ym mis Rhagfyr
- Gweithredu cynllun strategol newydd a newidiadau o fis Ebrill 2021

ii. Yn dilyn cyflwyniad SMcC, gwahoddod y Cadeirydd yr aelodau i ofyn unrhyw gwestiynau neu sylwadau, nodwyd y canlynol:

- Nododd SB yr angen i weithredu'n adweithiol ac yn effeithiol i Covid-19 ond i fwrw iddi hefyd tra bo ffocws sylweddol ar y sector gofal cymdeithasol a defnyddio'r ffocws hwnnw i fynd ar drywydd uchelgeisiau fel tegwch. Gofynnodd hefyd a yw'r rhaglen waith rheoleiddio ar gyfer gwella yn debygol o ddylanwadu ar y strategaeth ddiwygiedig. Ymatebodd DP gan nodi bod y gwaith ar y rhaglen reoleiddio yn adeiladu ar waith a wnaed eisoes tra bod Covid-19 wedi pwysleisio bod angen i rai pethau yn y sector wella nid yn unig mewn ymateb i Covid-19 ond o ganlyniad i'r pwysau a'r straen arferol; mae angen sector sydd mewn sefyllfa well i rannu arferion gorau, sy'n denu'r doniau gorau posibl, er mwyn datblygu pobl.
- Soniodd y Cadeirydd am yr argyfwng Covid-19 a'r dystiolaeth a fydd yn deillio ohono, gan gynnwys cryfderau, gwendidau, cyfleoedd ac felly bydd yn bwysig sicrhau bod y dystiolaeth hon yn cael ei chasglu.
- Soniodd PM am yr angen i weithio gydag eraill er mwyn cyflawni uchelgeisiau. Nododd SE fod gweithio gyda phartneriaid yn ail natur ac mae'r gwaith y mae Cordis Bright wedi ymgymryd ag ef ar yr adolygiad o'r rhaglen Gofal a Chymorth yn y Cartref yn cydnabod, er ein bod ni fel sefydliad yn arwain yn strategol, ein bod yn dibynnu ar eraill o ran cyflawni. Roedd cyfarfodydd diweddar gyda Chyddfederasiwn y GIG yn canolbwyntio ar gael nodau ac amcanion cyffredin. Mae angen parhau i wthio er mwyn osgoi dyblygu, mae swyddogion yn treulio llawer iawn o'u hamser yn meithrin perthynas ag eraill ac yn cydgysylltu lle y bo'n bosibl.
- Cyfeiriodd PM at lythyr cylch gwaith tymor y Llywodraeth ac a allai'r holl randdeiliaid allweddol gael y sgwrs gyda'i gilydd, er mwyn sicrhau cysondeb. Nododd SE fod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad mewnol drwy rannu llythyrau cylch gwaith ar draws adrannau, ac mae llythyrau cylch gwaith sefydliadau eraill yn cael eu rhannu â chydweithwyr ym maes polisi gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar. Nododd SE fod y sefydliad yn rhan o Grwpiau Cynghori'r Gweinidog (MAGs) a grwpiau gorchwyl a gorffen yn ôl y gofyn, ac fel arfer yn cael eu gwahodd fel arfer, os nad yw yna byddwn yn ceisio dod o hyd i ffordd o gymryd rhan.
- Holodd JO am iechyd meddwl a'r cyfraniad at gynllun iechyd meddwl y gweithlu. Nododd SE ein bod yn aelod o'r grŵp gweithredu iechyd meddwl a sefydlwyd mewn ymateb i newidiadau i'r ddeddfwriaeth iechyd meddwl. Mae aelod o'r adran Gwella a Datblygu yn uwch ymarferydd iechyd meddwl ac felly mae'n ymwneud â'r gwaith hwn.

iii. **Nododd** yr Aelodau yr wybodaeth ddiweddaraf a'r amserlen ar gyfer yr adolygiad o'r Cynllun Strategol.

4. Effeithiolrwydd y cyfarfod

i. Gofynnodd y Cadeirydd gyfres o gwestiynau i'r aelodau ynghylch effeithiolrwydd y cyfarfod.

ii.

Cytunodd yr Aelodau ar y canlynol:

- Roeddent wedi bod yn glir ynghylch yr hyn a oedd yn cael ei ofyn ganddynt yn y papurau;
- Nid oeddent yn teimlo bod unrhyw bapurau lle byddai gwybodaeth bellach neu ddarllen cefndirol wedi bod yn ddefnyddiol;
- Aeth y Bwrdd ati i ddatblygu eitemau allweddol mewn modd effeithlon;
- Roedd yr holl eitemau ar yr agenda a ystyriwyd yn amserol ac yn berthnasol ac roedd yr Aelodau wedi bod yn glir ynghylch y penderfyniadau a wnaed.

12. Unrhyw Fater Arall

i. Ni thrafodwyd unrhyw fater arall.

Dyddiad y cyfarfod nesaf:

Dydd Iau 16 Gorffennaf 2020

Gweithrediadau cyfarfodydd Bwrdd Gorfal Cymdeithasol Cymru

Log gweithredu 2020-21

Dyddiad cyfarfod	Eitem	Gweithred	Gweithred gan	Dyddiad targed	Canlyniad / diweddariad	Statws cyfredol	Dyddiad cwblhau
30.04.20	Eitem 5 – Covid-19: Ein hymateb	Y Bwrdd i gael ei ddiweddarau ar niferoedd cofrestru yn y dyfodol ar gyfer y radd Gwaith Cymdeithasol	David Pritchard, Cyfarwyddwr Rheoleiddio	16.07.20	Mae'r niferoedd yn well na'r disgwyl o'r blaen gan fod y mwyafrif o gyrsiau wedi recriwtio'n llwyddiannus ac yn cario rhestrau wrth gefn.	Caewyd	16.07.20
30.04.20	Eitem 7 – Cynllun Busnes 2020-21	Cyfarfod Bwrdd anghyffredin i'w drefnu ym mis Mai i'r Bwrdd gymeradwyo Cynllun Busnes 2020-21 cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru	Llinos Bradbury, Uwch Swyddog Llywodraethu	31.05.20	Trefnwyd cyfarfod Bwrdd anghyffredin ar gyfer 28 Mai, yn dilyn hyn cyflwynwyd y cynllun busnes drafft i Lywodraeth Cymru ar 9 Mehefin.	Caewyd	28.05.20
30.04.20	Item 7 – Cynllun Busnes 2020-21	Trosolwg lefel uchel o'r Cynllun Busnes i'w gylchredeg i'r aelodau am sylwadau cychwynnol	Sarah McCarty, Cyfarwyddwr Gwelliant a Datblygu	08.05.20	Rhannwyd trosolwg lefel uchel gydag aelodau ar y porth ar 4 Mai a derbyniwyd adborth gan aelodau.	Caewyd	11.05.20
30.04.20	Item 8 – Maerion rheoleiddio	Gweithio gyda'r tîm FtP i ddatblygu meini prawf ar gyfer pryd	Hywel Dafydd, Cyfarwyddwr	16.07.20	Rydym yn cynnal trafodaethau â chyfreithwyr	Agored	

		gellid defnyddio mwy ar adran 160 o'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu (RISCA), gan ei bod yn rhoi'r pŵer i fynnu gwybodaeth gan bersonau neu gyrff sy'n ymwneud ag achosion FtP.	Cynorthwyol Rheoleiddio		Llywodraeth Cymru i weithredu adran 160. Unwaith y cyflawnir hyn, byddwn yn gosod maen prawf. Mae gwaith Llywodraeth Cymru ar hyn wedi stopio oherwydd Covid-19 ond rydym mewn cysylltiad rheolaidd ac yn gobeithio gwneud cynnydd yn fuan.		
30.04.20	Item 8 – Materion rheoleiddio	Cwestiynau y gofynnir iddynt gan aelodau yn gael eu cyfeirio fel rhan o ddatblygiad dangosyddion a metrigau data rheoleiddio ledled y DU	David Pritchard, Cyfarwyddwr Rheoleiddio	Parhaus	Mae David yn parhau i weithio gyda chydweithwyr ledled y DU ond mae'r gwaith hwn wedi cael llai o flaenoriaeth i wneud lle i ymateb i Covid-19.	Agored	
30.04.20	Item 9 – Cyfleoedd i gryfhau llywodraethu corfforaethol	Gwelededd a hygyrchedd aelodau'r Bwrdd i aelodau staff i'w hystyried fel rhan o'r amserlen ddatblygu	Mick Giannasi	Parhaus	I'w drafod ymhellach gyda'r Grŵp Cydlynu Cadeiryddion ar ôl ei sefydlu	Agored	

30.04.20	Item 9 – Cyfleoedd i gryfhau llywodraethu corfforaethol	Diweddariad ar yr amserlen waith mewn perthynas â chryfhau llywodraethu corfforaethol at the July Board meeting	Mick Giannasi	16.07.20	Diweddariad ar: - ToR pwyllgor tal diwygiedig - Aelodaeth pwyllgor - Cadeiryddion yn cydlynu ToR Grŵp - Proses Gweithredu Cadeiryddion I'w drafod yng nghyfarfod mis Gorffennaf	Caewyd	16.07.20
30.04.20	Item 11 – Effeithiolrwydd y cyfarfod	Ôl-drafodaeth ar-lein yn dilyn y cyfarfod rhithwir cyntaf i'w gynnal	Mick Giannasi	01.06.20	Dad-friffio wedi'i gynnal, rhannu canlyniadau a themâu allweddol gyda'r Bwrdd	Caewyd	12.06.20
30.01.20	Item 6 – Gwaith Cymdeithasol yng Nghymru	Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraaf i'r Bwrdd wrth i'r cynllun gweithredu a'r llywodraethu gael ei ddatblygu	Sarah McCarty, Cyfarwyddwr Gwelliant a Datblygu	2020-21	O fewn Cynllun Busnes 2020-21 mae rhaglen waith i ddatblygu cynllun gweithlu gwaith cymdeithasol a bwrw ymlaen â hyn. Bydd cynnydd yn erbyn y gwaith hwn yn cael ei ddarparu fel rhan o adroddiad cynnydd chwarterol y cynllun busnes i'r Bwrdd.	Caewyd	16.07.20

30.01.20	Item 6 – Gwaith Cymdeithasol yng Nghymru	Cynhwys drafodaeth ar ddatblygiadau gwleidyddol yn sesiwn datblygu'r Bwrdd ym mis Ebrill	Llinos Bradbury, Uwch Swyddog Llywodraethu	30.04.20	Trafodwyd yn sesiwn datblygu'r Bwrdd 02 Gorffennaf	Caewyd	02.07.20
30.01.20	Item 8 – Negeseuon allweddol gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr	Gwahodd y tîm Cofrestru i gyfarfod y Bwrdd ym mis Ebrill i sicrhau bod eu cyflawniadau'n cael eu cydnabod yn briodol	Llinos Bradbury, Uwch Swyddog Llywodraethu	30.04.20	Oherwydd gorfod cynnal cyfarfodydd y Bwrdd yn rithwir, gwahoddir y tîm Cofrestru i fynychu'r cyfarfod priodol nesaf	Agored	

Gwethrediadau a gaewyd yn flaenorol

30.01.20	Item 5 – Diweddariad cynllun busnes	Edrych ar sut mae nifer yr achosion FtP agored yn cael eu cyflwyno yn y Cynllun Busnes	Hywel Dafydd, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Rheoleiddio	Ebrill 2020	Papur ar agenda'r Bwrdd Ebrill i drafod newid yn y targed cynllun busnes ar gyfer 2020-21	Caewyd	30.04.20
30.01.20	Item 5 – Diweddariad cynllun busnes	Mwy o fanylion i'w cynnwys ar nifer yr achosion FTP dros 18 mis yn y dyfodol a sicrwydd craffu ar lefel Pwyllgor	Hywel Dafydd, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Rheoleiddio	Ebrill 2020	Diweddariad chwarter 4 wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd ar 30 Ebrill gyda manylion pellach.	Caewyd	30.04.20
30.01.20	Item 5 – Diweddariad cynllun busnes	Anfon gwybodaeth am reoli prosesau ystadegol at swyddogion	Grace Quantock	Chwefror 2020	Gwybodaeth a anfonwyd gan Grace ac sy'n cael ei hystyried gan	Caewyd	17.04.20

					Swyddogion fel rhan o gynllun Busnes 2020-21 yn adrodd i'r Bwrdd ynghyd â'r gofynion a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar adrodd ar atebolrwydd.		
30.01.20	Item 5 – Diweddariad cynllun busnes	Mwy o fanylion ar reoli salwch tymor hir i'w cynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol	Kate Salter, Cyfwrwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Corfforaethol	Ebrill 2020	Diweddariad chwarter 4 wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd ar 30 Ebrill gyda manylion pellach.	Caewyd	30.04.20
30.01.20	Item 8 - Negeseuon allweddol gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr	Ystyried gyflwyno Proses Gweithredu Cadeiryddion fel ffordd ffurfiol o ddirprwyo penderfyniadau	Mick Giannasi, Cadeirydd	30.04.30	Wedi'i gynnwys fel rhan o'r papur gwella llywodraethu a ystyriwyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ebrill	Caewyd	30.04.20



CYFARFOD / MEETING	Cyfarfod Bwrdd				
	PREIFAT / PRIVATE		CYHOEDDUS / PUBLIC		
	<input type="checkbox"/>		<input checked="" type="checkbox"/>		
DYDDIAD / DATE	16.07.20				
EITEM AGENDA / AGENDA ITEM	6				
TEITL / TITLE / SCW/20/06	Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft 2019-20, Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon				
AWDUR / AUTHOR	Geraint Rowlands, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyllid a TG				
CYFRANIADAU GAN/ CONTRIBUTIONS FROM:	Archwilio Cymru				
PAPURAU CEFNOGOL / SUPPORTING PAPERS	Atodiad 1 - Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft 2019-20 Atodiad 2 - Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon				
GWEITHGAREDD CYNLLUN BUSNES / BUSINESS PLAN ACTIVITY	Thema flaenoriaeth 4: Galluogi Gofal Cymdeithasol Cymru i gyflawni				
GWEITHRED / ACTION REQUIRED	CYMERADWYAETH / APPROVAL	DARPARU LLYW / PROVIDE A STEER	DARPARU SICRWYDD / PROVIDE ASSURANCE	TRAFODAETH / DISCUSSION	CRAFFU / SCRUTINISE
	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
ARGYMHELLIAD / RECOMMENDATION	Gwahoddir y Bwrdd i graffu a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol Drafft a Chyfrifon a chraffu a chymeradwyo'r Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon.				
PRIF BWYNTIAU; MATERION ALLWEDDOL I DYNNU SYLW ATYNT; CWESTIYNAU I'W YSTYRIED	Mae'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon drafft ymhellach i archwilio allanol yn ymgorffori unrhyw gywiriadau yr oedd yn ofynnol eu gwneud i'r cyfrifon ac maent wedi'u hargymell i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.				
MAIN POINTS; KEY ISSUES TO DRAW TO ATTENTION;	Mae'r Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon yn amlinellu bod yr Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamad. Mae un argymhelliad sy'n codi o'r gwaith archwilio wedi'i nodi yn yr adroddiad.				

QUESTIONS TO CONSIDER	
ASESIADAU EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS	

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft 2019-20 ac Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon

1. Cyd-destun

- 1.1 Cyflwynir yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon Drafft yn Atodiad 1. Ymhellach i archwiliad allanol mae'r cyfrifon hyn yn ymgorffori unrhyw gywiriadau yr oedd yn ofynnol eu gwneud i'r Cyfrifon a'r naratif a grynhoir yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon.
- 1.2 Mae'r Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon yn nodi mai bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamedd ar y datganiadau ariannol. Mae un argymhelliad yn codi o'r gwaith archwilio mewn perthynas â thrafodion partiön cysylltiedig y mae'r swyddogion wedi ymateb iddynt.
- 1.3 Yn y Pwyllgor Archwilio a Risg, nododd yr Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon drafft fod un maes o waith archwilio ar ôl ar y pryd, sef derbyn cadarnhad gan archwilywyr allanol cronfa bensiwn RCT ynghylch datgelu pensiwn yn ein datganiadau ariannol. Derbyniwyd hwn bellach ac roedd Archwiliad Cymru yn fodlon ar y sicrwydd archwilio a ddarparwyd.
- 1.4 Ar ôl cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd, bwriedir llofnodi'r Cyfrifon gan y Swyddog Cyfrifyddu ar 17 Gorffennaf i'w llofnodi gan yr Archwilydd Cyffredinol ar 28 Gorffennaf. Rhagwelir y bydd y cyfrifon yn cael eu gosod gerbron y Senedd ar yr un diwrnod ag y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn eu llofnodi.

2. Goblygiadau adnoddau

- 2.1 Roedd adnoddau ar gyfer y gost archwilio allanol o £20,741 o fewn y gyllideb Llywodraethu.

3. Ystyriaethau risg

- 3.1 Byddai risg i'n henw da pe bai bwriad yr Archwilydd Cyffredinol i gyhoeddi barn archwilio gymwysedig.

4. Ymgysylltu

- 4.1 Roedd yr archwiliad allanol yn cynnwys ymgysylltu â'r Tîm Cyllid ond yn bennaf y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyllid a TG ac aelodau o'r Tîm Rheoli Gweithredol.

5. Impact

- 5.1 Mae'r Archwiliad Allanol yn darparu rôl bwysig i ddangos ein bod yn sefydliad tryloyw ac yn cael ein dal yn atebol am ein penderfyniadau.



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**



Annual Report and Accounts 2019-2020

Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016

Annual Report and Accounts of Social Care Wales prepared pursuant to Schedule 2, Part 6 Paragraph 16(1-3) of the Regulation and Inspection of Social Care(Wales) Act 2016, for the year ended 31 March 2020 together with the Report of the Auditor General for Wales thereon and laid before Senedd Cymru pursuant to the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act Schedule 2, Part 6 Paragraph 16(4)

Contact details

Social Care Wales
South Gate House
Wood Street
Cardiff CF10 1EW

Tel: 0300 3033 444
Minicom: 029 2078 0680
Email: info@socialcare.wales

socialcare.wales

Twitter: [@SocialCareWales](https://twitter.com/SocialCareWales)

© 2020 Social Care Wales

All rights reserved. No part of this publication may be reproduced, stored in a retrieval system or transmitted in any form or by any means without the prior written permission of Social Care Wales. Enquiries for reproduction outside the scope expressly permitted by law should be sent to the Chief Executive of Social Care Wales at the address given above.

Contents

Performance report	4
Overview	4
Statement from the Accounting Officer.....	4
Role of Social Care Wales – who we are.....	6
Our vision and strategic objectives.....	6
Key issues and risks that we face.....	7
Performance analysis	8
Accountability report	16
Corporate governance report	16
Directors’ report.....	16
Statement of the responsibilities of Social Care Wales and the Chief Executive.....	17
Governance statement.....	18
Remuneration and staff report	28
Remuneration report.....	28
Staff report.....	32
Accountability and audit	36
Certificate and independent auditor’s report of the Auditor General for Wales to the National Assembly for Wales	37
Financial statements	40
Statement of comprehensive net expenditure.....	40
Statement of financial position.....	41
Statement of cash flows.....	42
Statement of changes in taxpayers’ equity.....	43
Notes to the accounts.....	44

Performance report

Overview

Statement from the Accounting Officer

We are in our third year of delivery against our 2017-22 strategic plan. Thanks to the professionalism, dedication and hard work of our staff and partners, we have been successful in achieving almost the entire programme of work as set out in our business plan and 100 per cent of the priorities as set out in our remit letter from the Welsh Government. We have included a summary of some of our achievements in the performance commentary to provide an overview of what we have achieved this year.

The social care and early years sectors have an important role in improving the well-being of children and adults in Wales. Our work contributes to the ambitions of *A Healthier Wales* and the Welsh Government's 10-year Childcare, Play and Early Years workforce plan.

Our work, in partnership with others, supports the implementation of the legislative framework to transform care and support in Wales, as set out in the Social Services and Well-being (Wales) and Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Acts.

Every day, in every community in Wales, the hidden army of social care workers is battling away on the frontline, providing care and support to our most vulnerable friends, families and neighbours.

During the current Covid-19 crisis this has never been so evident, and we adapted our work at the end of the last financial year to respond proactively to the situation. This work included:

- creating a temporary register to enable former social workers to re-register
- publishing information and resources to guide workers through Covid-19
- enabling managers to register once they enrolled on a relevant course



- developing a social care worker recognition card to provide access to a range of benefits.

Hopefully, when this crisis is over, and care workers will, as ever, have demonstrated how valuable they are to our society, they will continue to be recognised as key workers. It is hoped investment will continue to be made in the workforce to ensure a sustainable way forward to meet the needs of our communities where the impact of poverty, poor health and an ageing society bring increased demands for good quality care and support.

We are committed to responding to the views and needs of people who use care and support, their families and those working in the sector to inform our work. This approach includes the design, delivery and governance of our work in setting and promoting high standards of practice and training.

Some of our main achievements have been delivered in partnership with others. These include the draft health and social care workforce strategy, the review, re-design and launch of the new Level 2 and Level 3 qualifications, and the WeCare Wales attraction, recruitment and retention campaign.

Through our work to regulate and support the workforce, we will maintain our approach to professional registration, communicating the standards set out in the *Code of Professional Practice for Social Care* to help registered people understand what's required of them. The focus is one of regulating for improvement, and assuring the public of the quality and safety of the social work and social care workforce.

There are now more than 30,000 people on the Register of Social Care Workers in Wales, which is a considerable increase over the last two years (there were 11,500 people on the Register in March 2018). We will consider how new groups of social care and early years workers may become professionally registered with us, working closely with the sector to find ways to do this that adds value during these challenging times.


Looking forward to our work programme in 2020-21, we will continue to work with partners to lead and support improvement in social care, and to take forward the long-term vision for seamless health and social care in Wales as set out in *A Healthier Wales*.

Our priorities for 2020-21 include:


- extension of registration to adult care home workers and new managers
- developing an ambitious new digital offer for our registered persons
- strengthening and extending our WeCare Wales campaign to support the sector
- developing proposals for an employer liaison service to be operational from April 2021
- progressing the workforce strategy
- developing expert guidance on evidence and good practice, including COVID-19 resources
- strengthening our data and influencing research and development activities to increase our intelligence
- learning from our COVID-19 related activities and from independent analysis to feed into a review of our strategic plan
- continuing to support the Welsh Government's improvement priorities.

Sue Evans
Chief Executive and Accounting Officer

Date: 17 July 2020



Role of Social Care Wales – who we are



Our vision and strategic objectives

Our purpose

Building confidence in the workforce and leading and supporting improvement in social care


Our vision

We want every person who needs support to live the life that matters to them

Our aims

Our three strategic aims define what we do. These aims will result in:

- improved well-being outcomes for children and adults who rely on care and support, their families and carers
- a high-quality, sufficient and skilled workforce
- people having confidence in the social care workforce, including the early years workforce, and the effectiveness of Social Care Wales.



Issues and risks we face

Information about our risk management and the main risks we face is provided in the Governance Statement on page 18.

The factors we think will have the greatest influence over the way we work and how we achieve our vision over the next five years are:

- the impact of COVID-19 on the social care and early years sector in supporting people and children
- remaining in a period of financial constraint
- the complex policy landscape.

Performance analysis

Our annual Business Plan for 2019-20 sets out our strategic objectives, along with our high-level activities and achievement measures. Throughout the year, we provide quarterly reports about the progress we have made against our strategic objectives to our Executive Management Team, and these are scrutinised by our Board and the Welsh Government.

Overall, we achieved all the priorities set out in our remit letter from the Welsh Government and we have highlighted some of our main achievements below.

This is a report about our work in 2019-20, but we recognise the significant impact COVID-19 had on the social care and early years sector towards the end of the financial year.

Providing public confidence

We want people to have confidence in the social care sector and in the effectiveness of Social Care Wales.

Registration

Registration is part of our ongoing commitment to professionalise the social care workforce and raise the status of workers. We recognise the need to make sure we have a sufficient workforce that's ready to meet new challenges, with the right skills and confidence to practise.

This year has been our busiest registration period by far as we registered more than 17,000 domiciliary care workers, while also maintaining the registration of the other groups of social care workers.

With the increased size of the Register, we will continue to identify ways in which we can better interact with registered people, helping them understand the expectations and standards set by the *Code of Professional Practice* by supporting their learning and development.

30,152
people were on our Register

17,711
domiciliary care workers were
registered with us by 31 March 2020

1,371
people left the Register

Registration is changing

Our consultation in autumn 2019, 'Registration is changing', set out new arrangements that covered:

- ways to register for adult care home workers
- practice guidance for adult care home workers
- ways to register for residential family centre support workers
- a new way for residential child care workers to qualify for registration
- a more flexible way of recognising a social care worker as a manager for the purposes of registration
- the payment of fees in years two and three of registration
- the streamlining of categories of worker on the Register.

We did all we could to make sure that those who might be affected by the proposed changes had a chance to comment. We sent the consultation document to more than 12,000 people, held workshops to help people understand the proposed changes and sent information about the consultation to registered persons and employers.

We received 136 responses to the consultation. We also took other opportunities to gather opinions from the sector throughout the 12-week consultation period and didn't rely on consultation responses alone, meeting with more than 500 people at a range of events. As a result, we now have a good understanding of the things people want us to do to support them if we go ahead with the proposals.

socialcare.wales/consultations/registration-is-changing

Covid-19 response

To assist the workforce during the emergency period, we put the following arrangements in place:

- we created a temporary register and social workers who left the Register in the last three years were invited to return to practise
- social workers registered in England, Northern Ireland or Scotland can now work in Wales without having to register with us
- residential child care workers and domiciliary care workers now have up to 12 months from the date they started in their role to complete their registration
- the confirmed competence route has been extended for domiciliary care workers applying to register
- we brought forward new routes for manager registration:
 - managers enrolled on the level 5 qualification can apply to register
 - nurses, occupational therapists or social workers can apply to register as managers.

Fitness to practise

Engagement work with employers, regulators and safeguarding

We have been working to change the emphasis of our investigation work towards supporting workers to develop and improve if they've been referred to us. To involve people in this approach, we:

- held numerous events throughout the year, including workshops
- supported inspector training for Care Inspectorate Wales
- attended local authority and provider training events across Wales.

We also increased our levels of active engagement with other regulators and worked with them on improving the way in which we carry out our work to maximise efficiency while protecting the public. One way in which we did this was by being proactive in sharing intelligence to support our collective aims.

Through our on-going engagement, organisations and employers have a better understanding of our regulatory work, and their responsibilities to support us in professionalising the social care sector. Early indications show organisations and employers are carrying out better internal disciplinary investigations, which means we are able to progress their referrals more efficiently. This has also meant we have been able to carry out more fitness to practise investigations as the number of registered workers has increased.

227
(0.75% of
the Register)

the number of registered persons about whom we received allegations that called into question their fitness to practise and suitability to remain on the Register

99
(44%)

of referrals related to registered persons who were subject to disciplinary processes

42

final hearings were held

25

people were removed from the Register

Of those removed, their roles were:

- 36%** residential child care workers
- 20%** adult care home managers
- 36%** social workers
- 4%** domiciliary care managers

Working with you to be effective

Strategy and Governance

During the year, Mick Giannasi was appointed our new Chair, following a public appointment recruitment process. Two new Board members were also appointed.

You can find out more about our governance effectiveness and achievements in our Governance Statement.

Engagement and communication

We have a detailed engagement strategy for 2018-22, and a detailed activity plan to put it into practice. The plan focuses on:

- the stakeholders we should engage with
- the level the engagement should take
- the methods for engagement and how they would be evaluated
- desired outcomes.

Our focus in 2019-20 was mainly, but not exclusively, on:

- the joint health and social care workforce strategy
- the attraction and recruitment campaign
- registering domiciliary care workers and preparing to register other groups
- the new health, social care and childcare qualifications
- implementation of the agreed national improvement plans
- our new, extended role in relation to the early years workforce.

Staff well-being

As a public service organisation, we are committed to demonstrating the Welsh public service values in the way we work with the sector and the way we work within the organisation.

Current workforce

126 staff



31 posts were recruited to

13.76%
staff turnover

3.74%
sickness
absence rate

143,664
resources were downloaded
from the website



10%
of these resource
downloads are the Code of
Professional Practice

1,523,225
website pageviews



38,818
reach of our best-
performing tweet

8,100
followers on Twitter



Developing the workforce

We want Wales to have a sufficient, high quality and skilled social care, and early years and childcare workforce.

Workforce strategy

To support the realisation of A Healthier Wales, the Welsh Government commissioned Health Education and Improvement Wales (HEIW) and us to develop a long-term workforce strategy. We did this in partnership with NHS Wales and local government, the voluntary and independent sectors, as well as regulators, professional bodies and education providers.

We employed a comprehensive engagement strategy, which involved contributions from nearly 1,900 people through a variety of methods. These methods included online surveys, workshops, webinars, one-to-one meetings and attending a range of professional meetings, and network and conference events.

The responses, along with reviews of recent literature, good practice and innovation, workforce intelligence, workforce trends and the implications of national legislation and policy on the workforce, have helped us in shaping this strategy.

This strategy is underpinned by seven key themes, which have been shaped by the engagement and consultation we carried out, and this work will influence our priorities for business planning for 2020-21.

The draft strategy was submitted to Welsh Government after it was approved by our board and that of HEIW.

WeCare Wales campaign

Launched in March 2019, the campaign aims to help attract more people into roles in care in Wales because we know that over the next 10 years, we will need around 20,000 more care workers.

The campaign was shaped by the feedback of people who are already working in the sector and more than 1,200 members of the public, who shared their perceptions about the social care, and early years and childcare sectors.

The campaign has been well received so far.

26
WeCare Wales stories
films were made



714,663
the number of times the
WeCare Wales stories
films were viewed



49,749
visitors to the WeCare
Wales website



3,938
followers across all
social media platforms
with a reach of 5.5
million people



“What better way to demonstrate how rewarding and diverse a career in Social Care and Early Years offers, than seeing people share their real experiences in the WeCare Wales campaign in Wales.”

Jonathan Griffiths, Director of Social Services, Pembrokeshire Council

“PACEY Cymru have supported the development of the WeCare Wales campaign and continue to work closely to promote the campaign. WeCare Wales inspires others, promotes the roles to potential recruits and creates a sense of pride in the work.”

Claire Protheroe, National Manager for Wales, PACEY

Investing in the workforce

We invested in supporting the social care workforce, so they have the right knowledge, skills, understanding and approach to provide good care and support.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r casgliadau ar archwiliad 2019-20. Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich datganiadau ariannol.

Adroddiad ar yr archwiliad o'r cyfrifon

Cyflwyniad	4
Effaith COVID-19 ar archwiliad eleni	4
Barn archwilio arfaethedig	5
Materion arwyddocaol sy'n codi o'r archwiliad	6
Gwaith dilynol ar argymhellion archwilio'r flwyddyn flaenorol	6
Atodiadau	
Atodiad 1 – Llythyr Sylwadau Terfynol	7
Atodiad 2 – Barn archwilio arfaethedig	10
Atodiad 3 – Crynodeb o gywiriadau a wnaed	14
Atodiad 4 – Gwaith dilynol ar argymhellion archwilio'r flwyddyn flaenorol	15

Adroddiad ar yr archwiliad o'r cyfrifon

Cyflwyniad

1. Rydym yn crynhoi prif ganfyddiadau ein harchwiliad o'ch datganiadau ariannol ar gyfer 2019-20 yn yr adroddiad hwn.
2. Rydym eisoes wedi trafod y materion hyn gyda'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyllid a TG.
3. Nid yw archwilwyr byth yn gallu rhoi sicrwydd cyflawn bod cyfrifon wedi'u datgan yn gywir. Yn lle hynny, rydym yn gweithio i lefel o 'berthnasedd'. Pennir y lefel hon o berthnasedd i geisio adnabod a chywiro camddatganiadau a allai beri fel arall i'r sawl sy'n defnyddio'r cyfrifon gael ei gamarwain.
4. Pennwyd lefel perthnasedd o £419,000 ar gyfer archwiliad eleni.
5. Ceir rhai meysydd o fewn y cyfrifon a allai fod yn bwysicach i'r darllenydd ac rydym wedi pennu lefel perthnasedd is ar gyfer y rhain, fel a ganlyn:
 - Adroddiad ar Gydabyddiaeth Ariannol £1,000
 - Datgeliadau Partïon Cysylltiedig £1,000
6. Yn y Pwyllgor Archwilio a Risg ar 25 Mehefin, esboniwyd ein bod heb gael cadarnhad eto gan archwilwyr allanol Cronfa Bensiwn RhCT ynghylch y datgeliadau pensiwn IAS 19 o fewn datganiadau ariannol Gofal Cymdeithasol Cymru. Ers hynny rydym wedi derbyn y cadarnhad hwn ac erbyn hyn rydym wedi cwblhau ein gwaith archwilio i raddau helaeth.
7. Yn ein barn broffesiynol ni, rydym wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol sy'n berthnasol i'n gwaith; rydym yn annibynnol arnoch chi; ac nid yw ein gwrthrychedd wedi cael ei beryglu mewn unrhyw ffordd. Nid oes unrhyw berthnasoedd rhyngom ni a chi a allai danseilio ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth yn ein tyb ni.

Effaith COVID-19 ar archwiliad eleni

8. Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith arwyddocaol ar bob agwedd ar ein cymdeithas ac mae'n dal i wneud hynny. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith baratoi cyfrifon ac mae'n dystiolaeth sylweddol o ymrwymiad eich tîm cyfrifon eich bod wedi llwyddo i wneud hynny eleni yn wyneb yr heriau a achosir gan y pandemig hwn. Rydym yn eithriadol o ddiolchgar i'r tîm am eu proffesiynoldeb i'n cynorthwyo i gwblhau ein harchwiliad dan amgylchiadau mor anodd.
9. Nid yw'n syndod bod y pandemig wedi effeithio ar ein harchwiliad ac rydym yn crynhoi'r prif effeithiau yn **Arddangosyn 1**. Ac eithrio lle'r ydym yn benodol yn gwneud argymhellion, caiff y manylion yn **Arddangosyn 1** eu darparu er gwybodaeth yn unig i'ch helpu i ddeall effaith pandemig COVID-19 ar broses archwilio eleni.

Arddangosyn 1 – effaith COVID-19 ar archwiliad eleni

Amserlen	<ul style="list-style-type: none">Ni newidiodd y terfyn amser ar gyfer cwblhau eich cyfrifon.Cawsom y cyfrifon drafft ar 1 Mehefin 2020.Ni newidiodd ein terfyn amser ar gyfer cwblhau ein harchwiliad.Rydym yn disgwyl i'ch adroddiad archwilio gael ei lofnodi ar 22 Gorffennaf 2020.
Llofnodion electronig	Os bydd yn dal yn angenrheidiol ar adeg cymeradwyo a llofnodi, byddwn yn derbyn llofnodion electronig a ffeiliau wedi'u trosglwyddo'n electronig.
Tystiolaeth archwilio	<p>Fel mewn blynyddoedd blaenorol, cawsom y mwyafrif o'r dystiolaeth archwilio mewn fformat electronig. Rydym wedi defnyddio amryw dechnegau i sicrhau ei dilysrwydd. Lle'r ydym wedi methu â chael mynediad at ddogfennau oherwydd cyfyngiadau COVID-19 rydym wedi llunio methodolegau archwilio eraill i gael tystiolaeth archwilio ddigonol.</p> <ul style="list-style-type: none">Defnyddio negeseuon e-bost diogel wedi'u hamgryptio i rannu dogfennau.Cafodd peth gwybodaeth ei gwirio trwy gymharu â phrintiau sgrîn neu â'r systemau byw trwy rannu sgrîn.Mae fideogynadleda wedi galluogi'r tîm archwilio i ohebu'n effeithiol gyda'r tîm cyllid trwy gydol yr archwiliad.

- Byddwn yn adolygu'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu ar gyfer ein proses archwilio o bandemig COVID-19 a pha un a oes arferion arloesol y gallem eu mabwysiadu yn y dyfodol i wella'r broses honno.

Barn archwilio arfaethedig

- Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni unwaith y byddwch chi wedi rhoi Llythyr Sylwadau inni yn seiliedig ar yr un a nodir yn **Atodiad 1**
- Rydym yn rhoi barn 'amodol' lle mae gennym bryderon perthnasol ynghylch rhai agweddau ar eich cyfrifon; fel arall rydym yn rhoi barn ddiamod.
- Mae'r Llythyr Sylwadau'n cynnwys rhai cadarnhadau y mae'n ofynnol inni eu cael gennych chi dan safonau archwilio.
- Caiff ein hadroddiad archwilio arfaethedig ei nodi yn **Atodiad 2**.

Materion Arwyddocaol sy'n codi o'r Archwiliad

Camddatganiadau nas cywirwyd

15. Nid chanfuwyd unrhyw gamddatganiadau yn y cyfrifon, sy'n dal heb eu cywiro.

Camddatganiadau a gywirwyd

16. Roedd un camddatganiad yn y cyfrifon sydd bellach wedi cael ei gywiro gan y rheolwyr. Fodd bynnag, rydym ni'n credu y dylid dwyn hwn i'ch sylw a chaiff ei nodi gydag esboniad yn **Atodiad 3**.
17. Ceir nifer o fân gamddatganiadau sydd wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr. Diwygiadau i ddatgeliadau naratif oedd y rhain ac nid ydym o'r farn bod angen eu dwyn i'ch sylw fel rhan o'ch cyfrifoldebau am y broses adrodd ariannol.

Materion Arwyddocaol eraill sy'n codi o'r Archwiliad

18. Yn ystod yr archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion sy'n ymwneud â'r cyfrifon ac yn eich hysbysu ynghylch unrhyw faterion arwyddocaol sy'n codi. Nid oedd unrhyw faterion yn codi eleni.

Gwaith dilynol ar argymhellion blynyddoedd blaenorol

19. Rydym wedi gwneud gwaith dilynol ar gynnydd a wnaed o ran rhoi argymhelliad y flwyddyn flaenorol ar waith, y mae'i fanylion i'w cael yn **Atodiad 4**.

Atodiad 1

Llythyr Sylwadau Terfynol

Pennawd llythyr Gofal Cymdeithasol Cymru

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

xx xxxx 2020

Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2019-20

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol (gan gynnwys y rhan o'r Adroddiad ar Gydnyddiaeth Ariannol sy'n cael ei harchwilio) Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 at ddiben mynegi barn ynglŷn â'u cywirdeb a thegwch, eu paratoi'n briodol a rheoleidd-dra incwm a gwariant.

Yr ydym ni'n cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl gwneud yr ymholiadau a oedd yn ddigonol yn ein tyb ni, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

Sylwadau'r rheolwyr

Cyfrifoldebau

Fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldeb am:

- baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Llawlyfr Adrodd Ariannol y Trysorlys. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'n ofynnol imi:
 - ddilyn y cyfarwyddiadau ar gyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu a chymhwysio polisïau cyfrifyddu priodol ar sail gyson;
 - llunio barnau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
 - datgan a ddilynwyd ac a ddatgelwyd safonau cyfrifyddu perthnasol ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol oddi wrthynt; a hefyd
 - eu paratoi ar sail busnes gweithredol ar y dybiaeth y bydd gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Cymru yn parhau i fod yn weithredol.
- sicrhau rheoleidd-dra unrhyw wariant a thrafodion eraill a ysgwyddwyd.
- dylunio, gweithredu a chynnal rheolaeth fewnol i atal a chanfod gwallau.

Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol ar eich cyfer:

- Mynediad llawn at:
 - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
 - gwybodaeth ychwanegol yr ydych chi wedi gofyn amdani gennym ni at ddiben yr archwiliad; a
 - mynediad digyfngiad at aelodau o staff y penderfynoch chi fod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt.
- Canlyniadau ein hasesiad ni o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi'u camddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll.
- Ein gwybodaeth ni am dwyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig yr ydym ni'n ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Gofal Cymdeithasol Cymru ac sy'n cynnwys:
 - rheolwyr;
 - cyflogeion sydd â rolau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
 - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.
- Ein gwybodaeth ni am unrhyw honiadau o dwyll gwirioneddol, neu dwyll tybiedig, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëwyd gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.
- Ein gwybodaeth ni am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu ddiffyg cydymffurfio tybiedig â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
- Gwybodaeth am bwy yw'r holl bartïon cysylltiedig a'r holl berthnasoedd a thrafodion â phartïon cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt.
- Ein gwybodaeth ni am yr holl achosion posibl a gwirioneddol o drafodion afreolaidd.

Sylwadau am y datganiadau ariannol

Mae'r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi cael eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rhai a fesurwyd yn ôl gwerth teg, yn rhesymol.

Rhodddwyd cyfrif priodol am berthnasoedd a thrafodion â phartïon cysylltiedig ac maent wedi cael eu datgelu'n briodol.

Lle cafwyd digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd yr oedd yn ofynnol gwneud addasiad ar eu cyfer neu eu datgelu, mae'r holl addasiadau a datgeliadau hyn wedi cael eu gwneud.

Mae pob ymgyfreithiad a hawliad gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi cael eu datgelu wrth yr archwilydd a

rhoddwyd cyfrif amdanynt ac maent wedi cael eu datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae effeithiau camddatganiadau nas cywirwyd a ganfuwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unol ac ar y cyd, i'r datganiadau ariannol o'u cymryd yn eu cyfanrwydd.

Sylwadau gan y Pwyllgor Archwilio a Risg

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Bwrdd ar 18 Gorffennaf 2020

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr wybodaeth honno wedi'i throsglwyddo i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd gan:

Llofnodwyd gan:

Prif Weithredwr

Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg

Dyddiad:

Dyddiad:

Atodiad 2

Adroddiad archwilio arfaethedig

Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Barn

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a pharagraff 16 Rhan 6 Atodlen 2. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, y Datganiad ar Lifoedd Arian, y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiâu cyfrifyddu arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y polisiâu cyfrifyddu a nodir ynddynt. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd gan Safonau Cyfrifyddu'r Undeb Ewropeaidd/Y Deyrnas Unedig (Ymarfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Gofal Cymdeithasol Cymru ar 31 Mawrth 2020 ac o'i wariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a pharagraff 16 Atodlen 2.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISA (UK)). Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol. Rwy'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU yn ei gwneud yn ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw'r defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw'r Swyddog Cyfrifyddu wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Gwybodaeth arall

Nid yw deddfwriaeth a chyfarwyddiadau a gyhoeddwyd ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru yn nodi cynnwys a ffurf yr wybodaeth arall y dylid ei chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr Adroddiad Blyneddol a'r datganiadau ariannol. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr Adroddiad ar Berfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall er mwyn nodi anghysonderau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n berthnasol anghywir ar sail yr wybodaeth a gefais wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau perthnasol ymddangosiadol, ystyriaf y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Adroddiad ar ofynion eraill

Barn am faterion eraill

Gan nad yw deddfwriaeth a chyfarwyddiadau a gyhoeddwyd ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru yn nodi cynnwys a ffurf yr wybodaeth arall y dylid ei chyflwyno gyda'r datganiadau

ariannol, nid wyf yn gallu cadarnhau bod yr Adroddiad ar Berfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd wedi'u paratoi'n briodol.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad, mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad ar Berfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad ar Berfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth Ariannol sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- nid yw gwybodaeth a nodwyd gan Weinidogion Cymru ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a thrafodion eraill wedi'i datgelu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau i'w gwneud am y datganiadau ariannol hyn.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau' Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a pharagraff 16 Rhan 6 Atodlen 2 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed dan y ddeddfwriaeth hon, am fod wedi'i argyhoeddi eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am ba bynnag reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn y Swyddog Cyfrifyddu i allu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir nad yw'n briodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Rwy'n cael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Adrian Crompton

24 Heol y Gadeirlan

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Caerdydd

28 Gorffennaf 2020

CF11 9LJ

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal a chyfanrwydd gwefan Gofal Cymdeithasol Cymru; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac yn unol â hynny nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a all fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan.

Atodiad 3

Crynodeb o gywiriadau a wnaed

Yn ystod ein harchwiliad canfuom y camddatganiadau canlynol sydd wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr, ond y dylid eu dwyn i'ch sylw yn ein tyb ni oherwydd eu perthnasedd i'ch cyfrifoldebau chi am y broses adrodd ariannol.

Arddangosyn 2: crynodeb o'r cywiriadau a wnaed

Gwerth y cywiriad	Natur y cywiriad	Rheswm dros y cywiriad
Datgeliad Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol	Datgelu cydnabyddiaeth ariannol y Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Gwybodaeth o fewn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Cynnwys y cyn-Gyfarwyddwr Rheoleiddio a Gwybodaeth a adawodd ei gyflogaeth ar 31 Mawrth 2019 o fewn ffigyrau cymharol 2018-19, a chynnwys troednodyn i egluro bod y Cyfarwyddwr Rheoleiddio presennol ar secondiad o Lywodraeth Cymru.	Ystyrir bod cyflogau uwch aelodau o staff yn berthnasol o ran natur, a chan hynny mae'n bwysig sicrhau eu bod yn cael eu datgelu'n gywir yn y datganiadau ariannol .

Atodiad 4

Gwaith dilynol ar argymhellion archwilio'r flwyddyn flaenorol

Rydym wedi gwneud gwaith dilynol ar gynnydd a wnaed gydag argymhellion archwilio'r flwyddyn flaenorol. Caiff manylion y cynnydd gydag argymhellion y flwyddyn flaenorol eu nodi yn y tabl isod.

Arddangosyn 3: argymhellion a ddeilliodd o'n gwaith archwilio yn 2018-19

Mater yn codi 1 – Mae angen i Gofal Cymdeithasol Cymru sicrhau eu bod yn cael datganiad partïon cysylltiedig ar gyfer unrhyw aelod sy'n gadael y Tîm Rheoli Gweithredol	
Canfyddiadau	<p>Mae safonau cyfrifyddu/y Llawlyfr Adrodd Ariannol yn mynnu bod y cyfrifon yn datgelu buddiannau partïon cysylltiedig ar gyfer holl aelodau'r Tîm Rheoli Gweithredol. Ni ddarparwyd yr wybodaeth hon ar gyfer y Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Gwybodaeth/Dirprwy Brif Weithredwr a adawodd y sefydliad ar 31 Mawrth 2019.</p> <p>Yn ôl eu natur, nid yw partïon cysylltiedig yn annibynnol ar ei gilydd ac, felly, mae datgeliadau ychwanegol a rheolau mwy llym yn berthnasol er mwyn galluogi defnyddwyr y datganiadau ariannol i ddeall eu natur a'r effeithiau gwirioneddol neu bosibl ar y sefydliad. Ceir datgeliadau partïon cysylltiedig er mwyn lliniaru'r risg o beidio ag adnabod neu beidio â datgelu a'r risgiau o dwyll.</p>
Blaenoriaeth	Uchel
Argymhelliad	Mae angen i Gofal Cymdeithasol Cymru gael datgeliad partïon cysylltiedig ar gyfer pob aelod o staff ac ar gyfer y rhai sy'n gadael y sefydliad.
Wedi'i dderbyn yn llawn gan y rheolwyr	Do
Ymateb y rheolwyr	Mae ffurflen datgan buddiant newydd wedi cael ei chreu a fydd yn cael ei rhoi i aelodau presennol y Tîm Rheoli

Mater yn codi 1 – Mae angen i Gofal Cymdeithasol Cymru sicrhau eu bod yn cael datganiad parhau cysylltiedig ar gyfer unrhyw aelod sy'n gadael y Tîm Rheoli Gweithredol

	Gweithredol a'r rhai sy'n gadael y Tîm Rheoli Gweithredol, os yn berthnasol, yn syth ar ôl diwedd y flwyddyn.
Dyddiad rhoi ar waith	Ebrill 2020
Diweddariad 2019-20	Yn ystod yr archwiliad, nodwyd na ofynnwyd am ffurflen datgan buddiant gan y Cadeirydd a oedd yn gadael, cyn i'r Cadeirydd adael Gofal Cymdeithasol Cymru ar 31 Gorffennaf 2019. Gofynnwyd am ffurflen datgan buddiant gan y Cadeirydd ar 18 Mehefin 2020 a daeth i law ar 18 Mehefin 2020.
Ymateb y rheolwyr	Pan fydd aelod o'r Bwrdd neu aelod o'r Uwch Dîm Gweithredol yn gadael, bydd ffurflen datgan buddiant yn cael ei rhoi i gael ei chwblhau yn fuan wedi iddynt adael.
Dyddiad rhoi ar waith	Ar unwaith



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.



CYFARFOD / MEETING	Cyfarfod Bwrdd				
	PREIFAT / PRIVATE <input type="checkbox"/>		CYHOEDDUS / PUBLIC <input checked="" type="checkbox"/>		
DYDDIAD / DATE	16.07.20				
EITEM AGENDA / AGENDA ITEM	7				
TEITL / TITLE / SCW/20/07	Adroddiad Sicrwydd Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg i'r Bwrdd				
AWDUR / AUTHOR	Rhian Watcyn Jones Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg				
CYFRANIADAU GAN/ CONTRIBUTIONS FROM:	Aelodau'r Pwyllgor Archwilio				
PAPURAU CEFNOGOL / SUPPORTING PAPERS	Atodiad 1: Adroddiad Sicrwydd Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg i'r Bwrdd Atodlen 1: Rhaglen waith y Pwyllgor 2019-20 Atodlen 2: Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2019-20				
GWEITHGAREDD CYNLLUN BUSNES / BUSINESS PLAN ACTIVITY	Thema flaenoriaeth 4: Galluogi Gofal Cymdeithasol Cymru i gyflawni				
GWEITHRED / ACTION REQUIRED	CYMERADWYA ETH / APPROVAL <input checked="" type="checkbox"/>	DARPARU LLYW / PROVIDE A STEER <input type="checkbox"/>	DARPARU SICRWYDD / PROVIDE ASSURANCE <input type="checkbox"/>	TRAFODAETH / DISCUSSION <input checked="" type="checkbox"/>	CRAFFU / SCRUTINISE <input type="checkbox"/>
ARGYMHELLIAD / RECOMMENDATION	Gwahoddir aelodau i drafod a chymeradwyo Adroddiad Sicrwydd Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg				
PRIF BWYNTIAU; MATERION ALLWEDDOL I DYNNU SYLW ATYNT;	Trafodwyd Adroddiad Sicrwydd Blynyddol drafft y Pwyllgor Archwilio a Risg i'r Bwrdd fel drafft yn y Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Chwefror 2020. Yn unol â 'Rheoli arian cyhoeddus Cymru', mae'n ¹ arfer da i'r Pwyllgor Archwilio a Risg 'gyngori corff llywodraethu sefydliad				

¹ 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru', Ionawr 2016, Llywodraeth Cymru

<p>CWESTIYNAU I'W HYSTYRIED</p> <p>MAIN POINTS; KEY ISSUES TO DRAW TO ATTENTION; QUESTIONS TO CONSIDER</p>	<p>sector cyhoeddus ar ei benderfyniadau allweddol ar lywodraethu a rheoli cyfleoedd a risgiau'. Felly, mae'r adroddiad hwn gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn rhoi i'r Bwrdd yr adroddiad trosolwg blynyddol ar waith y Pwyllgor am y flwyddyn ac adolygiad o effeithiolrwydd.</p> <p>Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r adolygiad hwnnw ar gyfer 2019-20 ac mae hefyd yn nodi meysydd ffocws penodol ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Risg yn 2020-21. Nodir hyn yn adran 9.3</p>
<p>ASESIADAU EFFAITH / IMPACT ASSESSMENTS</p>	

ADRODDIAD SICRWYDD BLYNYDDOL CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG I'R BWRDD

1. Pwrpas yr adroddiad a'r argymhelliad

- 1.1 Dyma Adroddiad Sicrwydd Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020. Mae'r adroddiad yn nodi'r gwaith Archwilio a Risg ar gyfer y flwyddyn i gefnogi'r datganiad llywodraethu blynyddol ac mae'n llywio ein Cyfrifon Blynyddol Statudol ar gyfer 2019-20.
- 1.2 Trafododd y Pwyllgor Archwilio a Risg yr adroddiad sicrwydd yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ym mis Chwefror. Gwahoddir yr Aelodau i drafod a chymeradwyo Adroddiad Sicrwydd Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg i'r Bwrdd.

2. Crynodeb

- 2.1 Mae'r ystod o weithgarwch a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg yn ystod 2019-2020 wedi rhoi sicrwydd cadarnhaol ynglŷn â llywodraethu, rheoli risg ac amgylchedd rheoli Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'n cefnogi'r Swyddog Cyfrifyddu i lofnodi datganiad llywodraethu blynyddol boddhaol am y flwyddyn.
- 2.2 Mae'r adroddiad i'r Bwrdd yn ceisio dangos rôl y Pwyllgor hefyd wrth sefydlu'r trefniadau llywodraethu angenrheidiol i gefnogi sefydlu'r sefydliad newydd.

3. Trefniadau'r Pwyllgor Archwilio a Risg

Rôl a chylch gwaith

- 3.1 Yn unol â'r Fframwaith Llywodraethu Enghreifftiol, rhaid i'r Bwrdd sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i roi sicrwydd ynghylch rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol. Rhaid iddo sefydlu Pwyllgor Archwilio dan gadeiryddiaeth aelod anweithredol (ond nid y Cadeirydd na'r Trysorydd) a dylai o leiaf un o aelodau'r Pwyllgor fod â phrofiad ariannol diweddar a pherthnasol er mwyn rhoi cyngor annibynnol iddo. Disgwylir i'r Bwrdd sicrhau ei hun ynghylch effeithiolrwydd y systemau rheolaeth fewnol a rheoli risg.
- 3.2 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynghori'r Swyddog Cyfrifyddu hefyd ynghylch digonolrwydd y trefniadau o fewn Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer archwilio mewnol, archwilio allanol a materion llywodraethu corfforaethol.
- 3.3 Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Risg bedair gwaith y flwyddyn i adlewyrchu:

- y gofynion craffu mewn perthynas â chymeradwyo'r dogfennau llywodraethu corfforaethol a'r Cyfrifon Blynyddol Statudol ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru
- y ffocws ar fonitro a chynnal rheolaeth risg, llywodraethu a rheolaethau mewnol digonol i gefnogi ein cydymffurfiaeth â deddfwriaeth, achrediadau ac arferion da
- datblygu a diwygio polisiau i gefnogi rheolaeth fewnol a llywodraethu effeithiol
- adeiladu ar effeithiolrwydd rheolaethau mewnol trwy adolygiadau archwilio mewnol ac adroddiadau ymgynghorol
- cyfleoedd cwmpasu ac archwilio ar gyfer rheoleiddio'r blynyddoedd cynnar a gofal plant
- effaith ein swyddogaeth rheoli grantiau mewn perthynas â darparu grant Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru i'r sector
- cynaliadwyedd y ddarpariaeth hirdymor yn unol â chynllunio ariannol hirdymor

3.4 Yn ogystal â'r aelodau anweithredol, roedd y mynychwyr yn cynnwys y Tîm Rheoli Gweithredol, swyddogion eraill Gofal Cymdeithasol Cymru, Archwilwyr Mewnol, Archwilwyr Allanol ac aelod annibynnol o'r Pwyllgor.

Presenoldeb blynyddol

3.5 Roedd presenoldeb Aelodau anweithredol fel a ganlyn:

Enw	Presenoldeb (allan o 4 cyfarfod)
Rhian Watcyn Jones (Cadeirydd y Pwyllgor)	4 allan o 4
Emma Britton (Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor)	3 allan o 4
Kate Hawkins	4 allan o 4
Carl Cooper	3 allan o 4
Trystan Pritchard	3 allan o 3
Daxa Varsani (aelod annibynnol)	4 allan o 4
Arwel Ellis Owen (aelod ex-officio) Daeth tymor y swydd fel Cadeirydd y Bwrdd i ben ym mis Gorffennaf 2019	0 allan o 1
Mick Giannasi (aelod ex-officio) Cadeirydd y Bwrdd o fis Awst 2019	1 allan o 3

3.6 Mae pob Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cwblhau datganiad buddiannau blynyddol. Defnyddir y wybodaeth i lunio'r Gofrestr Buddiannau sydd ar gael i'w hadolygu ar ein [gwefan](#). Yn ogystal, mae'r eitem gyntaf ar gyfer unrhyw gyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn caniatáu ar gyfer datgan unrhyw fuddiant sy'n benodol i eitemau'r agenda ar gyfer y cyfarfod hwnnw.

Cynefino a hyfforddiant

- 3.7 Derbyniodd pob aelod raglen gynefino 12 mis gynhwysfawr a oedd yn cynnwys diwrnod â ffocws ar gynllunio, cyflenwi a rheoli risg.
- 3.8 Yn 2019-20, ymunodd Daxa Varsani â'r Pwyllgor Archwilio a Risg fel yr aelod annibynnol. Trefnwyd cyflwyniad cynefino cynhwysfawr ar rôl y sefydliad a'r Pwyllgor gyda swyddogion i gefnogi Daxa.
- 3.9 Penodwyd Trystan Pritchard yn Aelod o'r Bwrdd ac ymunodd â'r Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Medi. Derbyniodd Trystan gyflwyniad cynefino â'r sefydliad fel aelod newydd o'r Bwrdd hefyd.
- 3.10 Fel rhan o ddatblygiad Aelodau'r Bwrdd, mae holl Aelodau'r Bwrdd yn cyfarfod â Chadeirydd y Bwrdd ddwywaith y flwyddyn i asesu anghenion hyfforddi.

4. Cyfrifon Statudol a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2019-20

- 4.1 Bydd y Cyfrifon Blynyddol ar gyfer 2019-20 yn cael eu paratoi o dan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a byddant yn cael eu harchwilio yn unol â strategaeth archwilio Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd y Cyfrifon Blynyddol Statudol drafft yn cael eu trafod i'w cymeradwyo'n ffurfiol gan Fwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru ym mis Gorffennaf 2020.
- 4.2 Cafodd y datganiad llywodraethu drafft ei drafod a'i ystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Risg yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ym mis Chwefror. Bydd hyn yn rhan o'r Cyfrifon Blynyddol Statudol drafft ar gyfer 2019-20.

5. Cyfarfodydd a busnes y Pwyllgor a'i effeithiolrwydd

- 5.1 Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn cytuno ar yr agenda'r eitemau i'w trafod cyn eu dosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor a'r rhai fydd yn bresennol.
- 5.2 Atodir y rhaglen waith flynyddol o eitemau a drafodwyd yn y Pwyllgor Archwilio a Risg yn ystod 2019-20 yn Atodiad 1. Ym mhob cyfarfod derbyniodd y Pwyllgor nifer o eitemau sefydlog a oedd yn cynnwys:
 - **Adroddiadau cydymffurfio:** darparu trosolwg o sicrwydd i'r aelodau mewn perthynas â chaffael; rheoli asedau; rhoddion a lletygarwch; llwgrwobrwyo, twyll a cholledion; llythyrau Prif Swyddog Gweithredol a Swyddog Cyfrifyddu; datganiadau o fuddiannau; llywodraethu gwybodaeth; cwynion; torri rheolau diogelwch; cydymffurfio â threfniadau hygyrchedd y wefan; adroddiadau ar chwythu'r chwiban fel person rhagnodedig; cydymffurfio â safonau'r Gymraeg.

- **Cofrestr Risg Strategol:** darparu i'r Aelodau y risgiau sefydliadol allweddol sy'n wynebu'r gwaith o gyflawni ein Cynllun Busnes a chyfleoedd i drafod risgiau strategol ychwanegol sy'n wynebu'r sefydliad ac adolygiad o'r polisi rheoli risg.

5.3 Fel rhan o werthuso effeithiolrwydd, cynhaliodd y Pwyllgor Archwilio a Risg adolygiad o effeithiolrwydd. Trafododd y Pwyllgor ganfyddiadau effeithiolrwydd y Pwyllgor ym mis Chwefror 2020. Cwblhawyd yr arolwg gan bump o chwe aelod y Pwyllgor.

5.4 Ar y cyfan, atebodd mwyafrif y rhai a ymatebodd yn gadarnhaol i'r cwestiynau gan naill ai gytuno neu gytuno'n gryf. O'u cymharu â chanlyniadau y llynedd, unwaith eto mae'r atebion yn cymharu'n ffafriol. Yn ystod trafodaethau'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2020, nododd y Pwyllgor y meysydd canlynol i lywio trafodaethau yn y dyfodol:

- cynnwys adborth gan gynrychiolwyr yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol yn arolygon effeithiolrwydd y dyfodol
- nodi gofynion hyfforddi penodol y Pwyllgor
- cynnal cofnod treigl o'r camau

5.5 Bydd y canfyddiadau'n llywio gofynion dysgu a datblygu'r Pwyllgor neu'r Bwrdd cyfan yn y dyfodol lle y bo'n berthnasol.

5.6 Yn dilyn pob cyfarfod unigol o'r Pwyllgor, gofynnir i bob Aelod ystyried ei effeithiolrwydd trwy adborth mewn perthynas ag eglurder ac ansawdd y papurau, rhwyddineb ac amseroldeb cael gfael ar bapurau, a oedd yr amseriadau a roddwyd ar gyfer pob eitem yn ddigonol; ac a oedd yr Aelodau'n teimlo eu bod yn cael digon o gyfle i rannu eu safbwyntiau. Defnyddir yr holl adborth a dderbynnir i wella cyfarfodydd yn y dyfodol yn barhaus.

6. Sicrwydd Archwilio Mewnol ac Allanol

Sicrwydd mewnol

6.1 Derbyniodd y Pwyllgor Archwilio a Risg adroddiadau rheolaidd gan archwilwyr mewnol ac allanol. Cynlluniwyd gwaith Deloitte, ein harchwilwyr mewnol yn ystod y flwyddyn, ar sail risg, ac fe'i diwygiwyd yn ôl yr angen yn unol â hynny, trwy drafodaethau yn y Pwyllgor.

6.2 Rhoddodd yr adroddiadau archwilio mewnol y sicrwydd canlynol i'r Pwyllgor:

Systemau ariannol (2018-19)	Sicrwydd sylweddol
Rheolaethau cyffredinol TG	Sicrwydd sylweddol
Llywodraethu Corfforaethol a Rheoli Risg	Sicrwydd sylweddol
Rhyddid Gwybodaeth	Sylweddol
Rheoli Perfformiad Staff	Sicrwydd cymedrol
Rheoleiddio Hyfforddiant	Sicrwydd sylweddol

6.3 Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o'r sgoriau sicrwydd a ddarparwyd gan yr archwiliad mewnol:

Assurance level	Definitions for Annual and Engagement assurance level	Factors influencing choice of assurance level
	There is a reasonable framework of governance, risk management and control which should ensure that objectives are achieved.	<ul style="list-style-type: none"> • Adequacy and effectiveness of the governance, risk management and control framework; • Impact of any weakness on delivery of objectives; • Extent of risk exposure; • Materiality: by value to the entity, by value in the engagement context and by nature (eg irregularity and reputational risk); and • We may also take account of management responses to recommendations.
	Some improvements are required to enhance the adequacy and effectiveness of the framework of governance, risk management and control.	
	There are significant weaknesses in the framework of governance, risk management and control such that it could be or could become inadequate and ineffective.	
	There are fundamental weaknesses in the framework of governance, risk management and control such that it is inadequate and ineffective or is likely to fail.	

6.4 Yn gyffredinol, mae'r adroddiadau hyn a'r gwaith a wnaed yn galluogi'r Pwyllgor Archwilio a Risg i roi sicrwydd ynghylch yr amgylchedd rheoli ar gyfer 2019-20.

- mae'r Datganiad Llywodraethu'n gyson â barn y Pwyllgor Archwilio a Risg;
- mae'r system rheoli risg yn ddigonol o ran nodi risgiau a chaniatáu i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ddeall rheolaeth briodol o'r risgiau hyn;
- ynghylch ansawdd Archwiliadau Mewnol ac Allanol, eu dull o gyflawni eu priod gyfrifoldebau, a dibynadwyedd eu gwaith; a
- cafodd meysydd i'w gwella a nodwyd fel rhan o Archwiliad Mewnol 2019-20 eu trin a'u trafod neu eu datblygu. Caiff y maes hwn ei gryfhau ymhellach gyda diweddariadau rheolaidd ar gynnydd yn cael eu hadrodd yn amlach.

Sicrwydd allanol

6.5 Mae'r Archwilwyr Allanol yn ystyried asesiadau'r Archwilwyr Mewnol. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru sy'n ategu ein cyfrifon blynyddol statudol yn cynnwys sicrwydd allanol pellach ynghylch ein Harchwiliad Mewnol.

6.6 Mae gan yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol yr hawl, os ystyrir hynny'n briodol, i godi unrhyw fater trwy bolisi mynediad agored gyda'r Cadeirydd a thrwy'r hawl honno i ddwyn unrhyw fater i sylw'r Pwyllgor. Drwy adolygu rhaglenni'r Archwilwyr Mewnol ac Allanol, sicrhodd y Pwyllgor eu bod yn cydweithredu'n effeithiol â'i gilydd. Gwerthuswyd ansawdd y gwaith archwilio a gwaith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn trwy ystyried yr adroddiadau archwilio ac

argymhellion a deialog mewn cyfarfodydd rhwng Aelodau'r Pwyllgor a'r Archwilwyr.

7. Contract Archwilio Mewnol

- 7.1 Rôl archwilio mewnol yw rhoi sicrwydd annibynnol a gwrthrychol i'r Swyddog Cyfrifyddu ar reoli risg, rheoli a llywodraethu. Mae'r sicrwydd a roddir gan archwilio mewnol yn elfen allweddol o'r fframwaith sicrwydd, y mae angen i'r Swyddog Cyfrifyddu ei ddefnyddio i lywio'r broses o gwblhau'r Datganiad Llywodraethu blynyddol. Penodwyd Deloitte LLP yn ddarparwr archwiliad mewnol Gofal Cymdeithasol Cymru ym mis Mawrth 2017, ar gontract 3 + 2 flynedd. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Chwefror 2020, penderfynodd y Pwyllgor weithredu opsiwn +2 y contract gyda Deloitte i cwmpasu cyfnod 31 Mawrth 2020 hyd at 31 Mawrth 2022, ac y bydd y gwaith o ailbrofi'r farchnad yn cael ei wneud yn yr ail flwyddyn.

8. Monitro cynnydd

- 8.1 Caiff cynnydd yn erbyn gweithredu argymhellion yr archwilwyr mewnol ei ystyried ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg fel rhan o'r adroddiad cydymffurfio.

9. Pwyllgor Archwilio a Risg Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer 2020-21

- 9.1 Mae Pwyllgor Archwilio a Risg Gofal Cymdeithasol Cymru wedi bod yn gweithredu ers mis Mehefin 2017 i gefnogi llywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol Gofal Cymdeithasol Cymru.
- 9.2 Er mwyn cefnogi datblygiad y Pwyllgor Archwilio a Risg bu holl Aelodau'r Pwyllgor yn ystyried y canlynol:
1. Beth yw prif gyflawniadau'r Pwyllgor a pham?
 2. Beth sydd wedi gweithio'n dda a beth y gellid ei wella?
 3. Yn unol â Chynllun Busnes drafft 2020-21 a dysgu o'r flwyddyn gyfredol, a oes meysydd ffocws penodol i'r Pwyllgor eu hystyried fel rhan o'i raglen waith ar gyfer 2020-21?
- 9.3 Yn dilyn y trafodaethau, nododd y Pwyllgor y meysydd canlynol sy'n llywio rhaglen waith y Pwyllgor yn y dyfodol yn 2020-21:
- **Cwmpasu'r potensial i reoleiddio gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar** a'r adroddiadau craffu rheolaidd ar y rhaglen. Mae dull gweithredu'r rhaglen yn diffinio'n glir yr hyn a gaiff ei gyflawni ym mhob un o'r cyfrannau a sut y byddwn yn gweithio gyda'r sector i archwilio'r dull gweithredu. Bydd hyn yn parhau wrth i ni weithio tuag at ddiwedd cyfran 1 yn 2021.

- Adolygu **senarios ariannol** y dyfodol a chael cyfleoedd i adolygu'r sefyllfa ariannol yn fanwl (adolygiad at wraidd y mater). Bydd y Pwyllgor yn parhau i fod yn agored i gyflwynwyr allanol i gefnogi trafodaethau wrth edrych ar gyllid gwasanaeth cyhoeddus
- Y craffu a'r cymorth cymesur ar ein **dull gweithredu a chydymffurfiaeth â deddfwriaeth y Ddeddf Diogelu Data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth**. Darparu her tra'n cydnabod y sicrwydd a gafwyd ynglŷn â chydnerthedd yn y system. Mae hyn wedi arwain at archwiliad annibynnol allanol ychwanegol o'n cydymffurfiaeth â Diogelu Data a fydd yn llywio trafodaethau'r Pwyllgor yn 2020-21
- Bydd goblygiadau datblygu'r cymwysterau a'r trafodaethau ehangach mewn perthynas â phrentisiaethau yn eitem i'w thrafod mewn cyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

10. Goblygiadau Risg

- 10.1 Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi sicrwydd ar y datganiad llywodraethu blynyddol ac yn lleihau'r risg na ellir cymeradwyo'r Cyfrifon Blynyddol Statudol yn unol â'r amserlen a gynlluniwyd gan y Swyddog Cyfrifyddu.

11. Goblygiadau o ran Adnoddau

- 11.1 Mae'r archwiliad o'r Cyfrifon Blynyddol wedi'i gynllunio a'i drefnu. Nid oes unrhyw oblygiadau ychwanegol o ran adnoddau.

12. Crynodeb a Chasgliad

- 12.1 Mae'r sicrwydd cadarnhaol a roddwyd gan holl weithgareddau'r Pwyllgor yn cefnogi'r Swyddog Cyfrifyddu trwy lofnodi datganiad llywodraethu blynyddol boddhaol a'r Cyfrifon Blynyddol Statudol.

Pwyllgor Archwilio a Chraffu – rhaglen waith 2019-20

27 Mehefin 2019

- Cyfrifon Blynyddol Archwiliedig drafft a'r Llythyr Rheoli ISA 260 (i gynnwys Datganiad Llywodraethu a Sylwebaeth Perfformiad)
- Adroddiad Archwilio Mewnol systemau ariannol (Sylweddol)
- Adroddiad Cydymffurfio: Chwefror 2019 – hyd at ddiwedd Mai 2019
- Cofrestr Risg Strategol
- Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol 2019-20
- Gwaith rhaglen bontio'r blynyddoedd cynnar a gofal plant
- Blaengynllun y Pwyllgor

26 Medi 2019

- Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog
- Adroddiad Cydymffurfio: Mehefin 2019 – hyd at ddiwedd Awst 2019
- Cofrestr Risg Strategol
- Adroddiad monitro diwedd blwyddyn Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (SCWWDP) 2018-2019
- Gwaith rhaglen bontio'r blynyddoedd cynnar a gofal plant

21 Tachwedd 2019

- Adroddiad Archwilio Mewnol Rheolaethau Cyffredinol TG (Sylweddol)
- Adroddiad Cydymffurfio: Medi 2019 – hyd at ddiwedd Hydref 2019
- Cofrestr Risg Strategol
- Gwaith rhaglen bontio'r blynyddoedd cynnar a gofal plant – diweddariad

13 Chwefror 2020

- Adroddiad Archwilio Mewnol Llywodraethu Corfforaethol a Rheoli Risg (Sylweddol)
- Adroddiad Archwilio Mewnol Rhyddid Gwybodaeth (Sylweddol)
- Adroddiad Archwilio Mewnol Rheoli Perfformiad Staff (Cymedrol)
- Adroddiad Archwilio Mewnol Rheoleiddio Hyfforddiant (Sylweddol)
- Adolygiad Teithio a Chynhaliaeth
- Adolygiad o'r Contract Archwilio Mewnol
- Adroddiad Cydymffurfio: Tachwedd 2019 – hyd at ddiwedd Ionawr 2020
- Cofrestr Risg Strategol
- Cynllun Archwilio Allanol 2019 – 2020
- Datganiad Llywodraethu Drafft 2019 – 2020
- Adroddiad Sicrwydd drafft y Pwyllgor Archwilio a Risg i'r Bwrdd (2019 – 2020)
- Diweddariad ar y gyllideb
- Gwaith rhaglen bontio'r blynyddoedd cynnar a gofal plant
- Adroddiad Effeithiolrwydd y Pwyllgor



Social Care Wales Internal Audit Annual Report

Deloitte Confidential: Government and Public Services – for approved external use only

April 2020

Distribution List:

- Audit and Risk Committee
- Chief Executive
- Responsible Officer(s)

This report and the work connected therewith are subject to the Terms and Conditions of the contract dated 15 May 2019 between Social Care Wales and Deloitte LLP.

The report is produced solely for the use of Social Care Wales for the purpose of providing internal audit services. Its contents should not be quoted or referred to in whole or in part without our prior written consent except as require by law. Deloitte LLP will accept no duty or responsibility to any third party, as the report has not been prepared, and it not intended for any other purpose.

This report has been prepared on the basis of the limitations set out in Appendix C.

Contents

Executive Summary	3
Section 1 – Assurance Statement	6
Section 2 – Summary of 2019/20 Internal Audit Findings	7
Appendix A – Reporting Definitions	8
Appendix B – Our Performance Assessment	9
Appendix C – Statement of Responsibility	11

Executive Summary

1. Introduction

The purpose of this report is to present the results of the internal audits completed by Deloitte in our capacity as internal auditors during 2019/20. We have now completed the internal audit programme approved by the Audit and Risk Committee for 2019/20 covering the period 1 April 2019 – 31 March 2020.

The role of internal audit is to provide independent and objective assurance to the Accounting Officer on risk management, control and governance. The assurance given by internal audit is a key element of the framework of assurance, which the Accounting Officer needs to inform the completion of the annual Governance Statement. Assurance from internal audit can, however, only be reasonable in the sense that no opinion or assurance can ever be absolute and is by definition an extrapolation of the evidence available. The internal audit assurance does not supersede the Accounting Officer's personal responsibility for risk management, control and governance.

As required by the Public Sector Internal Audit Standards (PSIAS), we confirm our independence as internal auditors from Social Care Wales (SCW). We also confirm compliance with the requirements of the PSIAS and the Code of Ethics.

All assurance ratings should be considered by reference to Appendix A. We have included our self-assessment of our performance as internal auditors in Appendix B.

2. Corporate Governance and Risk Management

In accordance with the PSIAS, we carry out internal audit work in relation to corporate governance and risk management on an annual basis. In 2019/20 our internal audit of corporate governance and risk management assessed the adequacy and effectiveness of internal controls in operation. Any weaknesses were brought to the attention of management and advice issued on how particular problems may be resolved and controlled.

The internal audit sought to provide reasonable assurance over the following areas:

Risk Management – Operational Risks

- An up to date risk management policy is in place which is available to relevant members of staff;
- The risk management policy sets out the process for identifying operational risks and how these should be escalated where necessary;
- Operational risks are recorded on a risk register;
- Operational risks are escalated where necessary;
- There is a process in place to identify risks relating to projects and these risks are recorded on the operational risk register; and
- Operational risks are reviewed on a regular basis.

As part of our internal audit, we met with a sample of staff members (selected from 'middle management') to discuss their experiences of identifying and managing operational risks within the organisation in order to identify any areas of weakness or potential improvement.

Corporate Governance

As part of our Corporate Governance internal audit we undertook a review of whether the Scheme of Delegation, including decision making around policies, is being consistently applied across the organisation. This review involved inspecting the Scheme of Delegation to determine the decision making which lies with the Board, sub-committees and staff, and sample testing to determine whether decisions are being made in line with the Scheme of Delegation. This covered decisions made at Board, Committees and by the Accounting Officer, and that Welsh Government approval has been sought where necessary. It also involved inspection of the Terms of Reference in place for sub-

committees to determine their consistency with the Scheme of Delegation. In addition, the audit involved consideration of the completeness of the Scheme of Delegation.

Corporate Governance & Risk Management Follow Up

We sought to assess progress made in implementing the two recommendations which remained outstanding from the Corporate Governance and Risk Management Internal Audit Report issued by Deloitte in 2018/19.

The internal audit involved reconfirming our understanding of the control environment and assessing any significant changes to the Corporate Governance and Risk Management environment.

Based on the work undertaken as detailed in our internal audit report for 2019/20, our overall assessment is that the classification of assurance for Corporate Governance and Risk Management is **substantial**.

3. Assurance Statement

We are required to provide assurance on risk management, control and governance. In assessing the level of assurance to be given, we have taken into account:

- all internal audits undertaken between 1 April 2019 and 31 March 2020;
- the action taken in response to our audit recommendations;
- whether high or medium priority recommendations have been accepted by management, and the consequent risks;
- the effects of any material changes in the organisation's objectives or systems; and
- whether or not any limitations have been placed on the scope of internal audit.

